Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

## GWYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**a gynhelir yn**

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD IAU, 6 RHAGFYR 2012**

**am 2.00 o'r gloch**

## SUMMONS AND AGENDA

**for a**

**MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

**to be held at the**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**THURSDAY, 6 DECEMBER 2012**

**at 2.00p.m**

# R H A G L E N

1 **CYFLWYNIADAU**

Bydd Cadeirydd y Cyngor Sir yn cyflwyno Gwobrau Chwaraeon Blynyddol Ynys Môn ar gyfer y categorïau isod:-

•Geneth y Flwyddyn
•Bachgen y Flwyddyn
•Tîm y Flwyddyn
•Person Chwaraeon y Flwyddyn
•Gwirfoddolwr/wraig y Flwyddyn
•Gwirfoddolwr/wraig Ifanc y Flwyddyn
•Camp Eithriadol mewn Chwaraeon

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod:-

•27 Medi, 2012
•4 Hydref, 2012 **(Arbennig)**
•23 Hydref, 2012 **(Arbennig)**

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen

4 **DERBYN UNRHYW DDATGANIAD O DDIDDORDEB GAN UNRHYW AELOD NEU SWYDDOG MEWN PERTHYNAS AG UNRHYW EITEM AR Y RHAGLEN**

5 **COFNODION ER GWYBODAETH - BWRDD CYNALIADWYEDD** (Tudalennau 17 - 22)

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 1 Hydref, 2012.

6 **CYFLWYNO DEISEBAU**

Yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad, bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno'r deisebau isod i'r Cadeirydd gan drigolion Llanfaelog a Phencarnisiog:-

•Deiseb yn gofyn am sefydlu cyfleusterau diogel i gerddwyr a phobl anabl groesi'r ffordd rhwng y feddygfa a'r Swyddfa Bost ym mhentref Llanfaelog;

•Deiseb yn gwrthwynebu penderfyniad y Cyngor i ddwyn i ben y gwasanaeth bws 25/45 drwy bentref Pencarnisiog.

7 **NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR** (Tudalennau 23 - 42)

**(a)Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Dweud fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2012, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir:-

*"Ei fod yn ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor i ymgymryd â chyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau, gan gynnwys eu sgiliau TG a chefngaeth ar gyfer y sgiliau hynny;*

*Bod y Pwyllgor yn cynnal tri chyfarfod cyffredinol yn ychwanegol at ei Gyfarfod Blynyddol ym mhob Blwyddyn Ddinesig gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd eraill yn ôl yr angen".*

Ystyried yr uchod ac os yn cytuno diwygio Paragraff 3.4.12 Cyfansoddiad y Cyngor (Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) i gyd-fynd â hynny.

**(b) Adolygu Polisiau Twyll a Llygredd**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio).

**[Sylwer: Cafodd y polisïau hyn eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 25 Medi, 2012 a chan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref, 2012]**

8 **RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO** (Tudalennau 43 - 78)

Ystyried gwneud newidiadau parhaol i'r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio wedi i gyfnod arbrofol o 12 mis ddod i ben.

Cyflwyno adroddiad a baratowyd ar y cyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd).

9 **DIRPRWYIADAU** (Tudalennau 79 - 80)

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno er gwybodaeth, adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo o ran swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ers y cyfarfod arferol diwethaf (cyfeirir at hyn dan Reol 4.4.1.2 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith yn y Cyfansoddiad).

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R Ll Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd G O Jones (Is-gadeirydd)(ar y diwrnod)<br><br>Y Cynghorwyr W J Chorlton; Jim Evans; Lewis Davies; R Anthony Dew; D R Hughes; K P Hughes; R Ll Hughes; W I Hughes; W T Hughes; Vaughan Hughes; Aled M Jones; Eric Jones; G O Jones; H Eifion Jones; O.Glyn Jones; Raymond Jones; R Dylan Jones; T H Jones; Rhian Medi; C McGregor; A Mummery; Bryan Owen; R L Owen; Bob Parry OBE; G O Parry MBE; Eric Roberts; P S Rogers; E Schofield; Ieuan Williams; S Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Cyfreithiwr (ORH)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br><br>Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Mick Giannasi a Gareth Jones |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Comisiynydd Byron Davies; Y Cynghorwyr E G Davies; K Evans; Cliff Everett; Ff M Hughes; T Ll Hughes(ar fusnes y Cyngor); J V Owen; J Arwel Roberts; G W Roberts OBE. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod:-

- 3 Mai, 2012
- 10 Mai, 2012
- 10 Mai, 2012 (CCB)
- 17 Mai, 2012
- 27 Mehefin, 2012

**Yn codi o'r cofnodion -**
Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn dymuno iddo gael ei nodi nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 27 Mehefin oherwydd ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar fusnes arall.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Rhoes y Cadeirydd groeso cynnes i'r Cynghorwyr  Alun Mummery a Vaughan Hughes, a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Sir.

Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Cadeirydd Mr. Gareth Evans (Clwb Codi Pwysau Caergybi) a oedd wedi cystadlu yn y Gemau Olympaidd yn Llundain ym mis Gorffennaf.  Daeth Gareth yn wythfed yng Ngrŵp 8 a thorrodd record 'clean and jerk' Cymru drwy godi 158kg.  Hefyd, llwyddodd i godi'r un pwysau â record Cymru, sef 130kg yn y 'snatch' ond collodd allan ar y record Brydeinig oherwydd iddo fethu codi 133kg.  Mynegodd ei werthfawrogiad i'r holl Wirfoddolwyr a gyfrannodd at lwyddiant y Gemau Olympaidd.

Llongyfarchwyd hefyd y rheiny a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Morgannwg a hefyd yn Sioe Môn yr haf hwn ynghyd â'r disgyblion ysgol uwchradd hynny a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau Lefel O a Lefel A.  Dymunwyd yn dda hefyd i'r sawl a fydd yn cychwyn eu gyrfaoedd yn y Brifysgol.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes ar ei benodi'n Llywydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i'r isod a enillodd wobrau mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd ar y cyd gan Eden Food Service a'r Cyngor Sir:-

Lyn Evans, Ysgol Kingsland, Caergybi – Cogyddes y Flwyddyn – Ysgolion Cynradd 2011-12;

Gwen Johnson a Linda Samuels, Ysgol David Hughes – Cogyddes y Flwyddyn – Ysgolion Uwchradd 2011-12;

Debra Roberts, Ysgol Biwmares – Gwobr Gweithio mewn Partneriaeth 2011-12.

Rhoddwyd y cyfle i'r Arweinydd ac i'r Cynghorydd O.Glyn Jones i longyfarch yr Adran Dai mewn perthynas â phrosiect *'Cymhorthfa Cartrefi Gweigion'* y Sefydliad Tai Siartredig a oedd ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Tai Cymru ar gyfer datblygu ac adnewyddu cymunedau.  Yn ystod y broses ddyfarnu, roedd y Panel o'r farn y byddai'r cais yn fwy addas ar gyfer gwobr *'Arweinyddiaeth Ragorol gan Awdurdod Lleol'* ac, o'r herwydd, trosglwyddwyd y prosiect i'r categori hwnnw a'i roi ar y rhestr fer..

Ar nodyn trist, estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf i Mr.Matthew Maynard (Porthaethwy), Mrs.Sue Maynard a'u merch Ceri a'r teulu i gyd ynghyd â chyfeillion Tom Maynard a fu farw dan amgylchiadau trist ym mis Mehefin yn 23 oed.  Ymunodd Tom Maynard â Chlwb Criced Sirol Surrey o Forgannwg a chafodd ei ddewis  i ymuno â'r England Lions y gaeaf diwethaf.  Roedd yn fatiwr ifanc hynod ddawnus a oedd wedi cael cychwyn anhygoel i'w yrfa, ac yn amlwg, byddai wedi cyflawni llawer iawn mwy.

Cydymdeimlwyd â theulu'r Awyr-Lefftenant Hywel Poole o Fangor, peilot Llu Awyr Brenhinol a fu farw mewn gwrthdrawiad Tornado yn yr awyr yn Yr Alban.  Bu Hywel, a oedd yn 28 oed, yn ddisgybl yn Ysgol David Hughes. Bu farw dau o'i gydweithwyr hefyd yn y ddamwain a mynegwyd cydymdeimlad y Cyngor â'r holl deuluoedd.

Yn ogystal, cydymdeimlwyd â theulu Peter Richard Radcliffe Roberts, 20 oed o Gaergybi a fu farw mewn amgylchiadau trist tra'n gwasanaethu ar HMS Vigilant. Dywedodd y Cadeirydd y bu yn yr angladd ddydd Gwener diwethaf.

Ar ran y Cyngor, estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad dwysaf â'r Cynghorydd R.Dylan Jones yn dilyn marwolaeth ei fam.

Achubodd y Cadeirydd hefyd ar y cyfle i gydymdeimlo gydag unrhyw Aelod Etholedig neu aelod o staff a oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod ei daith gerdded elusennol yn ddiweddar o Eglwys Sant Cybi yng Nghaergybi i Ffynnon Sant Seiriol ym Mhenmon. Roedd wedi codi dros £2,000. Soniodd hefyd am Orymdaith Rhyddid y Llu Awyr Brenhinol a gynhelir yng Nghaergybi ar 17 Tachwedd, 2012

-----------------------------------------------------------------------.

Dygodd y Prif Weithredwr sylw'r Cyngor at y datganiad a wnaed gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a'r Cymunedau i'r Cynulliad ar 19 Medi, 2012 lle amlinellodd newid i'r trefniadau etholiadau ym Môn o fis Mai 2013, a fydd yn lleihau nifer yr aelodau etholedig o'r 40 presennol i 30 mewn 11 o wardiau amlaelod.

Roedd y Cyngor hwn yn ddiweddar wedi trafod y cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ffiniau ac wedi penderfynu derbyn eu hargymhellion. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei fod wedi derbyn 28 o sylwadau ar y ddogfen ymgynghori yn cynnwys ymateb y Cyngor hwn.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Gweinidog yn awr yn bwriadu cyhoeddi Gorchymyn yn y Senedd i ddod â'r newidiadau hyn i rym yn barod ar gyfer etholiadau'r Cyngor hwn ym mis Mai 2013. Gallai'r Cyngor hwn yn awr gychwyn cynllunio ar gyfer yr etholiadau hynny a'r dasg gyntaf fyddai llunio cofrestr etholwyr, gwaith y mae'n rhaid ei gwblhau erbyn 15 Hydref. Byddai'r Cyngor wedyn yn symud ymlaen i sicrhau cyhoeddusrwydd digonol yn y cymunedau i'r newidiadau hyn mewn modd clir a thryloyw, gan gynnwys lleoliad gorsafoedd pleidleisio, yr hyn a ddisgwylir o bleidleiswyr a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd sefyll fel ymgeiswyr yn yr etholiad.

**4. COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD CYNALIADWYEDD**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfodydd o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod:-

- 28 Mai, 2012
- 16 Gorffennaf, 2012

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys cofnodion y cyfarfodydd o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 28 Mai a 16 Gorffennaf, 2013 ar yr amod bod enw'r Cynghorydd Bob Parry, OBE yn cael ei gynnwys ar y rhestr o'r aelodau hynny a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2012.**

**5. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.2.1**

Dim.

**6. CYFLWYNO DEISEBAU**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y deisebau isod i Gadeirydd y Cyngor:-

1. Deiseb i ailagor toiledau traeth Cemaes (dros 340 wedi llofnodi).

2. Deiseb yn gwrthwynebu codi tyrbinau gwynt masnachol yn Llanfechell a Mynydd Mechell (dros 300 wedi llofnodi)

3. Deiseb o blaid parc i blant ym Malltraeth (dros 300 wedi llofnodi).

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r deisebau i'r Pwyllgor isod am sylw:-**

1. **Pwyllgor Gwaith**
2. **Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol**
3. **Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2011-12

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau) ar yr adolygiad blynyddol o reoli trysorlys ar gyfer 2011-12. Rhoes y Pwyllgor Archwilio sylw i'r adroddiad ar 24 Gorffennaf a phenderfynodd dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo cyfeirio ei gynnwys i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad blynyddol ar reoli trysorlys ar gyfer 2011-12 ynghyd â'r dangosyddion pwyllog ar gyfer y flwyddyn sydd wedi cael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio..**

## 8. DATGANIAD CYFRIFON 2011-12

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau) ar y Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol. Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2012 fel a ganlyn:-

•*cadarnhau derbyn y Datganiad cyfrifon;*

•*cadarnhau na fydd unrhyw ddarpariaeth bellach yn cael ei gwneud ar hyn o bryd o ran ôl-ofal yn safle gwastraff Penhesgyn;;*

•*cadarnhau na fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud o ran y cyfrifon sy'n daladwy.*

**PENDERFYNWYD cadarnhau derbyn y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2011-12 a'r sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 25 Medi..**

## 9. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL - ADRODDIAD AR Y GWERTHUSIAD O GYMERIAD ARDAL GADWRAETH PORTHAETHWY

Dywedwyd bod y Bwrdd Comisiynwyr yn eu cyfarfod ar 3 Medi, 2012 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir ei fod *'yn cymeradwyo'r Gwerthusiad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Porthaethwy ar gyfer ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol."*

**PENDERFYNWYD cadarnhau argymhelliad y Bwrdd Comisiynwyr yn hyn o beth.**

## 10. CYNLLUN RHEOLI EIDDO AC ASEDAU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) ar newidiadau a gynigiwyd gan y Bwrdd Comisiynwyr ar 23 Gorffennaf 2012 i'r Cynllun Rheoli Asedau yn unol ag Adran 3.2.2.1.3 Cyfansoddiad y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd H.Eifion Jones am adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn â'r cyfeiriad ar Dudalen 4 yr adroddiad dyddiedig 23 Gorffennaf *'datblygodd y Panel Tasg a Gorffen Rhesymoli Eiddo restr o'r eiddo ar gyfer cael gwared arnynt ond cydnabuwyd mai'r cam cyntaf oedd hwn yn y broses o gael gwared ar eiddo'n gyflym'.*

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo argymhellion y Bwrdd Comisiynwyr a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2013 mewn perthynas â'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo a TGCh Corfforaethol;;**

- **Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith yn y man gyda diweddariad ar y gwaith a wnaed eisoes gan y Panel Tasg a Gorffen Eiddo.**

## 11. CYNNIG A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD

**PENDERFYNWYD nodi bod y Rhybudd o Gynigiad a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Aled Morris Jones a Selwyn Williams wedi cael ei dynnu'n ôl.**

## 12. ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTER 5 Y COMISIYNWYR

Cyflwynodd y Comisiynydd Mick Giannasi Adroddiad Cynnydd Chwarter 5 y Comisiynwyr a oedd yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd a wnaed gan y Comisiynwyr yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn nodi'r gwaith pellach y mae angen ei wneud yn y dyfodol er mwyn cynnal y broses adfer.

Cyfeiriwyd hefyd yn y sesiwn friffio at yr argymhelliad diwygiedig a wnaed gan y Comisiynwyr ynglŷn â'r posibilrwydd o ddychwelyd rheolaeth ddemocrataidd; crynodeb o ymateb y Gweinidog i'r argymhellion hynny fel y cawsant eu cynnwys mewn datganiad i'r Cynulliad ar 24 Medi ac amlinelliad cryno o'r modd y byddai cam nesaf yr ymyrraeth yn datblygu.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad.**

## 13. ADNEWYDDIAD DEMOCRATAIDD

(a)Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y datganiad a wnaed gan y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 25 Medi 2012 mewn perthynas â gostwng lefel yr ymyrraeth..

Aeth yn ei flaen i sôn y byddai cyfarfod arbennig o'r Cyngor yr wythnos nesaf yn rhoi sylw i gynllun trawsnewid o'r enw "*Y Llwybr ar gyfer Ynys Môn Newydd"* a fyddai'n gweddnewid y modd y mae'r Cyngor hwn yn gweithio drwy sefydlu fframwaith gweithredu priodol a fyddai'n addas ar gyfer awdurdod lleol modern, yn seiliedig ar drefniadau effeithiol, lle byddai Swyddogion ac Aelodau, drwy ymgysylltu gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol ehangach mewn modd cynhwysol yn gweithio i sicrhau gwelliannau parhaus i'r gwasanaethau ar gyfer trigolion Ynys Môn.

Roedd y llythyr gan SAC yn ddiweddar mewn perthynas ag Asesu'r Gwelliant wedi bod yn galonogol ac yn gefnogol iawn gan ddweud bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r adael â rhai o'r newidiadau sylfaenol a nodwyd. Roedd yr Awdurdod hefyd yn gwneud cynnydd da ar y 10 thema Adfer a sefydlwyd gan y Comisiynwyr ac roedd hyn yn sicr wedi cael dylanwad ar benderfyniad y Gweinidog i ostwng lefel yr ymyrraeth.

Ar ran Swyddogion y Cyngor, achubodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i'r Comisiynwyr Margaret Foster a Gareth Jones yr oedd eu cyfnodau yn y swydd yn dod i ben heddiw. Diolchodd iddynt am eu gwaith a'r modd y bu iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn ddyfal ac yn effeithiol ynghyd â'r modd yr oeddynt wedi delio gyda ni mewn modd cadarnhaol a chynaliadwy. Roedd eu gwybodaeth a'u profiad wedi bod o gymorth anferthol i'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi adroddiad llafar y Prif Weithredwr.**

(b)Rhoes y Prif Weithredwr adroddiad llafar ar argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Roedd y Panel wedi bod yn ystyried taliadau ar gyfer y dyfodol ac roeddynt yn y broses o ymgynghori. Bydd CLILC yn penderfynu fory ar eu safiad fel Cymdeithas a bydd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd yn cynrychioli'r Cyngor hwn yn y cyfarfod hwnnw. Gofynnodd i'r Cyngor ystyried datgan ei fod yn barod i gefnogi safiad CLILC oherwydd ei bod yn bwysig mabwysiadu'r un safiad ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru yn hyn o beth. Gofynnodd ymhellach i'r Cyngor ofyn i'r Panel adfer taliadau i aelodau'r Pwyllgor Gwaith o 1 Hydref 2012, sef dyddiad trosglwyddo pwerau yn ôl i aelodau etholedig.

Achubodd y Cynghorwyr Bryan Owen a G.O.Parry, MBE ar y cyfle i ddiolch i'r Comisiynwyr am eu gwaith. Diolchodd y ddau hefyd i'r Comisiynwyr Margaret Foster a Gareth Jones, am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r broses adfer.

Diolch y Comisiynydd Gareth Jones i'r aelodau am eu geiriau caredig, diolchodd i'w gyd-Gomisiynwyr ac i'r aelodau a'r swyddogion a dymunodd yn dda i'r Awdurdod ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod y Cyngor yn cefnogi ymateb CLILC ar ran yr holl awdurdodau sy'n aelodau ohono i'r Adroddiad Blynyddol Drafft am 2013-14 ac yn gofyn i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dderbyn hwn fel ymateb Ynys Môn pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad terfynol;**

- **Bod y Cyngor yn derbyn argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â'r trefniadau a wnaed dan benderfyniadau'r Panel sy'n benodol i Ynys Môn fel y cawsant eu hamlinellu yn eu llythyr dyddiedig 10 Awst 2012, trefniadau a fydd mewn grym hyd at etholiadau'r Cyngor ar 2 Mai 2013;**

- **Gofyn i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol benderfynu rhoi taliadau i aelodau'r Pwyllgor Gwaith a hynny i fod yn gwbl weithredol o ddyddiad ailsefydlu llywodraethu democrataidd (1 Hydref 2012) yn wyneb y ffaith y byddai'r taliadau'n cael eu gohirio hyd oni fyddai trefn briodol yn caniatáu i'r taliadau gael eu gwneud.**

**14. DOGFEN YMGYNGHORI BETSI CADWALADR AR YR ADOLYGIAD O'R GWASANAETH**

Rhoes y Cadeirydd groeso cynnes i'r cynrychiolwyr isod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

1. Andrew Jones – Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
2. Sally Baxter – Cyfarwyddwr Cynllunio Cynorthwyol
3. Kathryn Thomas, Metron Bro, Llangefni.

Trwy gyfrwng sioe sleidiau, dygodd Mr Andrew Jones sylw'r Cyngor at newidiadau y bwriedir eu gwneud yn y ddogfen yr ymgynghorwyd gyda'r cyhoedd yn ei chylch rhwng 20 Awst - 28 Hydref, 2012 o'r enw

*"Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid"*. Roedd prif negeseuon y newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r canlynol:-

- Gwasanaeth gofal dwys i fabanod newydd anedig
- Gwasanaethau fasgwlaidd
- Iechyd Meddwl Pobl Hyn
- Gofal Lefel Uwch yn y Gymuned

Ar ôl y cyflwyniad, cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a chael atebion iddynt.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cyflwyniad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 5:15 pm

**Y CYNGHORYDD R LI. JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Ll. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd E. G. Davies - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, Jim Evans, Lewis Davies, R. Anthony Dew, D. R. Hughes, K. P. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, Vaughan Hughes, Aled M. Jones, G. O. Jones, O. Glyn Jones, T. H. Jones, C. McGregor, A. Mummery, Bryan Owen, J. V. Owen, R. G. Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, P. S. Rogers, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Addysg)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu.<br><br>Comisiynwyr Alex Aldridge a Mick Giannasi |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr C. Ll. Everett, K. Evans, Ff. M. Hughes, W. T. Hughes, E. Jones, H. E. Jones, Rhian Medi, R. L. Owen, G. W. Roberts OBE, J. A. Roberts, E. Schofield, I. Williams. |

---

## 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Nid oedd dim i'w ddatgan.

## 2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TALEDIG

Ar ran y Cynghorydd Aled Morris Jones, roedd y Cadeirydd am longyfarch Dyfed Pritchard, Rhosybol ac Aled Pennant, Llangristiolus ar eu llwyddiant yn dod yn bencampwyr *"Pencampwriaeth Ralio Tarmac Cymru".* Hwy oedd y rhai cyntaf o Ynys Môn i ennill y Bencampwriaeth hon erioed.

Estynnodd Arweinydd y Cyngor ei longyfarchiadau i'r Cadeirydd ar ei daith gerdded elusennol yn ddiweddar o Eglwys Sant Cybi Caergybi i Ffynnon Sant Seiriol, Penmon. Roedd y daith gerdded wedi codi dros £2,000.

## 3. CYNLLUN GWEITHREDU – ÔL-AROLWG ESTYN

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden ar 21 Medi 2012, yn dilyn ystyried papur ar y camau a gymerwyd i lunio cynllun ôl-arolwg, wedi penderfynu –

*"Bod ansawdd y cynllunio fel a amlinellwyd yn Atodiadau 2 a 3 o'r adroddiad yn briodol ac yn ddigon manwl i ffurfio cynllun gweithredu cadarn fydd yn bodloni'n llawn yr argymhellion a wnaed gan Estyn".*

Cyn ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r Cyngor at y datganiad a wnaed gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews ar 3 Hydref 2012. Gyda chefnogaeth lawn y Gweinidog tros Lywodraeth Leol a Chymunedau, roedd y Gweinidog ddoe wedi sefydlu Bwrdd Adfer i gynnal ac i gynghori Comisiynwyr Llywodraeth Cymru ac i herio ac i gefnogi swyddogion ac aelodau'r Cyngor yng nghyswllt gwasanaethau addysg Ynys Môn.

Byddai'r Bwrdd Adfer yn cael ei gadeirio gan yr Athro Mel Ainscow, Athro Addysg a Chyd-gyfarwyddwr y Centre for Equity, Manceinion. Ef oedd Prif Ymgynghorydd Her Manceinion Fwyaf, a chyn hynny yn brifathro, yn arolygydd awdurdod addysg leol ac yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Byddai'r Bwrdd hefyd yn cynnwys Geraint Rees, Prifathro Gweithredol Ffederasiwn Glyn Derw a Llanfihangel-Ar-Elái. Byddai aelodau pellach o'r Bwrdd yn cynnwys uwch swyddog addysg o Lywodraeth Cymru a Dr. Chris Llywellyn o GLlLG. Byddai'r Bwrdd yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2012 ac wedi hynny yn darparu adroddiadau i'r Gweinidog ynglŷn â'r cynnydd oedd yn cael ei wneud. Byddai'r Gweinidog yn cadw trosolwg ar strwythur ac aelodaeth y Bwrdd ac yn ychwanegu aelodau pe bai angen hynny.

Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, yn rhoi trosolwg i'r aelodau o'r camau a gymerwyd i ymateb i adroddiad Estyn ar ansawdd y gwasanaethau addysg lleol i blant a phobl ifanc, ac i gyflwyno Cynllun Gweithredu ôl-arolwg i'w dderbyn.

Adroddwyd – I adroddiad Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg yr Awdurdod Lleol i blant a phobl ifanc ym Môn gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Gorffennaf 2012 (Atodiad 1 i'r adroddiad). Roedd y farn gyffredinol ar y Perfformiad Cyfredol a'r Rhagolygon am Welliant wedi eu nodi eu bod yn anfoddhaol, ac roedd cyfeiriad at hyn ym mharagraff 1.2 o adroddiad y Cyfarwyddwr. O ganlyniad, roedd Estyn o'r farn bod yr Awdurdod yn disgyn o fewn y categori dilyn-i-fyny lle byddai angen mesurau arbennig.

Roedd disgwyl i'r Cyngor lunio Cynllun Gweithredu i Estyn erbyn 9 Hydref 2012 i ddangos sut y byddai'n rhoi sylw i'r saith argymhelliad oedd yn ei adroddiad. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r camau a gymerwyd i lunio'r Cynllun Gweithredu oedd wedi'i gyflwyno i'r aelodau i'w ystyried (Atodiad 2 yr adroddiad).

Roedd y gwelliannau oedd yn cael eu disgwyl ar gyfer pob un o'r argymhellion wedi cael eu llunio a'u rhestru - ac roedd y rhain yn cael eu pwysleisio ar ddiwedd pob argymhelliad ar dudalennau 8 - 11 adroddiad y Cyfarwyddwr. Roedd Cynllun Gweithredu manwl ar gyfer pob argymhelliad hefyd wedi ei lunio (tudalennau 12 - 39 yr adroddiad), ac roedd rhaglen fonitro wedi'i chynnwys ar ddiwedd pob adran o'r cynllun gweithredu. Byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Bwrdd Adfer ac i'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden.

Roedd matrics perfformio wedi'i lunio i gofnodi data perfformiad 3 blynedd ar gyfer dangosyddion allweddol ac i bwysleisio'r gwelliannau a gynlluniwyd dros gyfnod o ddwy flynedd (tudalennau 40 - 45 yr adroddiad), ynghyd â chynllun rheoli prosiect amlinellol yn pwysleisio'r camau oedd i'w cymryd, y cyfnodau amser cysylltiedig, rhai meysydd lle gellid cael gorgyffwrdd posibl ac enwau'r unigolion allweddol oedd â chyfrifoldeb cyffredinol am arwain ar bob cam gweithredu (tudalen 46 yr adroddiad).

Roedd y Cyngor, gyda chefnogaeth Cymdeithas LlLC a Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr allanol ISOS i asesu capasiti a gallu i roi sylw i ganlyniadau archwiliad Estyn. Roedd copi o'u hadroddiad cychwynnol ynghlwm (Atodiad 3 yr adroddiad) (*Rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr. Leigh Sandals, Partneriaeth ISOS a roddodd gyflwyniad i'r Cyngor ynghylch hyn).*

Roedd y Cyngor yn gweithio hefyd gyda Grwp Hay i ddatblygu Cynllun Datblygu Sefydliadol cadarn. Fel rhan o'r bartneriaeth hon, roedd yr arbenigwr addysg o fewn Grwp Hay wedi canolbwyntio ar gynnwys y Cynllun Gweithredu ac wedi cyflwyno sylwadau oedd wedi eu cynnwys yn Atodiad 4 yr adroddiad. Gwnaed nifer o sylwadau gan yr aelodau gyda'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn rhoi ei ymateb iddynt.

**PENDERFYNWYD nodi penderfyniad y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden ar 21 Medi 2012 a derbyn cynnwys y Cynllun Gweithredu ôl-arolwg fel ymateb y Cyngor i adroddiad Estyn.**

**4. DATBLYGU SEFYDLIADOL YNYS MÔN NEWYDD**

Adroddwyd gan y Prif Weithredwr - Bod Tîm Uwch Arweinyddiaeth y Cyngor, yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, wedi bod yn gweithio gydag ymgynghorwyr allanol arbenigol o Grwp Hay, i ddatblygu cynllun trawsnewid o'r enw *"Y Ffordd i'r Ynys Môn Newydd".* Roedd yr adroddiad yn gosod cyfeiriad clir i flaenoriaethau Cyngor Ynys Môn newydd ac yn amlinellu'r prif faterion ar gyfer derbyn sylw gan Aelodau a Swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r cyfleon a'r heriau oedd yn wynebu'r Ynys a'i dinasyddion.

Roedd y proses o ddatblygu'r cynllun fframwaith hwn wedi golygu ymgynghori gyda Chomisiynwyr a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol a gwahoddwyd y Cyngor i roi ei sylwadau ar gynnwys yr adroddiad o safbwynt ei weledigaeth, ei nodau a'i amcanion, addasrwydd i bwrpas y prosesau oedd yn cael eu hargymell a hefyd y materion a ddylai fod yn brif ganolbwynt sylw.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynllun fel fframwaith ar gyfer gweithredu a chynllunio ymlaen i greu Cyngor effeithiol i'r dyfodol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4:00 p.m.

**Y CYNGHORYDD R. LL. JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R Ll Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd E. G. Davies (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W J Chorlton; Lewis Davies;R Anthony Dew; Jim Evans Ff. M. Hughes; K P Hughes; W I Hughes; Aled M Jones; Eric Jones; T H Jones; Raymond Jones; C McGregor; A Mummery; Bryan Owen; G O Parry MBE; Eric Roberts; J. A. Roberts; P S Rogers; S Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu<br><br>Y Comisiynydd Mick Giannasi |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr K. Evans; R. Ll. Hughes; V. Hughes; H. Eifion Jones; O. Glyn Jones; R. L. Owen; R. G. Parry OBE; G. Winston Roberts OBE; Ieuan Williams. |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TALEDIG**

Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r isod o Ynys Môn a dderbyniodd wobrau yn Seremoni Gwobrwyon Scottish Power/Trinity Mirror a gynhaliwyd yng Ngwesty Sant Siôr, Llandudno ar ddydd Gwener, 12 Hydref 2012:-

Ms Lucy Beesley, Bowstones, Marianglas (Person)
Mr. David Hughes, 10 Queen's Park Court, Caergybi (Gwirfoddolwr)
Mr. Steven Rossington, 18 Maes yr Haf, Caergybi (Tîm)
Mr. Alan Williams, 10 Newry Fields, Caergybi (Tîm)
Mr. Gareth Evans, Ty'n Rhos, Ffordd Minffordd, Caergeiliog (Chwaraeon)

Soniodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd R. L. Owen wedi ei daro'n wael mewn cyfarfod ddydd Iau diwethaf. Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Owen am adferiad llawn a buan.

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd am yr Orymdaith Rhyddfraint Ynys Môn i Lu Awyr Brenhinol y Fali a gynhelir yng Nghaergybi ar 17 Tachwedd 2012.

Dywedodd y Prif Weithredwr, er gwybodaeth, ei fod wedi derbyn adroddiad atodol terfynol heddiw gan Gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch y gydnabyddiaeth i Aelodau'r Cyngor hwn, yn dilyn cyfarwyddyd y Gweinidog ar 24 Medi yn dychwelyd pwerau gweithredol i'r Cyngor o 1 Hydref 2012. Byddai cynnwys yr adroddiad yn cael ei drafod gyda'r Arweinwyr Grwpiau ddydd Iau a byddai copi yn cael ei anfon at Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth.

**3. ADOLYGIAD PERFFORMIAD CYNLLUN GWELLA 2011-12**

(a) Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith, ar 15 Hydref 2012, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

- *Nodi sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2012;*
- *Awdurdodi swyddogion i wneud rhagor o waith ar y cynllun drafft mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio a chyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.*

(b) Cyflwynwyd – dyfyniad o gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2012 yn y cyswllt hwn.

(c) Cyflwynwyd – y fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Gwella (dogfen ar wahân).

Adroddwyd - Bod yr adroddiad hwn yn ymwneud â chynhyrchu'r Adolygiad Perfformiad drafft a oedd yn 'edrych yn ôl' dros berfformiad y Cyngor yn ystod 2011/12 a'i fod yn cael ei gyflwyno fel crynodeb byr o'r prif benawdau o fewn y ddogfen Adolygiad Perfformiad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys yr Adolygiad Perfformiad Cynllun Gwella ar gyfer 2011/12, a bod unrhyw waith golygyddol terfynol yn cael ei gwblhau mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio cyn cyhoeddi'r ddogfen ar 31 Hydref 2012.**

**4. BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR – DOGFEN YMGYNGHOROL YNGHYLCH ADOLYGU'R GWASANAETH**

Cyflwynwyd – Copi o ymateb arfaethedig y Cyngor (*a baratowyd gan yr Aelod Portffolio a'r Cyfarwyddwr Cymuned*) i'r ddogfen ymgynghorol ar Ofal Iechyd yng Ngogledd Cymru.

Fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, cytunwyd y dylid cynnwys y paragraff isod dan baragraff 8 yr adroddiad (Sylwadau a chwestiynau cyffredinol):-

*"Pa gyfleon sydd i gryfhau trefniadau cydweithio o ran rheoli asedau. Awgrymir bod tystiolaeth o gynnydd yn hyn o beth gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdodau Tân."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo ac awdurdodi'r Prif Weithredwr i gyflwyno ymateb y Cyngor Sir i'r ddogfen ymgynghorol erbyn y dyddiad cau.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30am

**CYNGHORYDD R. Ll. JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# BWRDD CYNALIADWYEDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2012 (11:00am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Mick Giannasi (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, K. P. Hughes, T. Lloyd Hughes, Bryan Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Tom Jones (fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio), Selwyn Williams (fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cymuned, Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant)<br>Rheolydd Risg ac Yswiriant (JJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Mri. Andy Bruce a Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Comisiynwyr Byron Davies ac Alex Aldridge<br>Y Cynghorwyr O. Glyn Jones. |

---

Cafwyd cyflwyniad gan y Comisiynydd Mick Giannasi ar Gam 2 yr Ymyrraeth a chyfeiriodd yn benodol at y materion isod:-

- Darparu rhywfaint o gyd-destun ar gyfer y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd;
- Crynhoi effaith y Cyfarwyddyd gan y Gweinidog a gyhoeddwyd ar 24 Medi 2012;
- Egluro'r rôl 'ostyngol' y byddai'r Comisiynwyr yn ei mabwysiadu i'r dyfodol;
- Amlinellu'r ffordd y byddai cam nesaf yr Ymyrraeth (Cam 2 - Gwelliant a Chynaliadwyedd) yn datblygu;
- Rhoi rhyw syniad bras o'r feddylfryd sy'n esblygu o ran Cam 2 - model llywodraethu;
- Egluro rôl a swyddogaeth Bwrdd Gwelliant a Chynaliadwyedd y Comisiynwyr i'r dyfodol.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

### 2 YMDDIHEURIADAU

Fel yr uchod.

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2012.

## 4 RECRIWTIO A CHADW STAFF YN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned – Bod y Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn wedi bod yn destun sgriwtini manwl trwy gydol 2011/12 gyda phryderon am gapasiti ac ansawdd y gwasanaethau yn ganolbwynt ar gyfer arolygiad ac adolygiad AGGCC. Datblygwyd ymateb gyda dau gam pendant mewn golwg. Y cam cyntaf oedd sefydlogi'r gwasanaethau a chanolbwyntio'n drwyadl ar berfformiad a chwistrellu ymdeimlad o gyflymder ac uchelgais i lwyddo. Yr ail gam oedd gwella ansawdd a chreu trawsnewid i ddarparu gwasanaeth sy'n addas i'r pwrpas dros y degawd nesaf.

Roedd y gwelliant mewn perfformiad i'w briodoli yn rhannol i'r ffordd yr oedd yr Adran wedi medru cyflogi staff asiantaeth profiadol i ychwanegu at ei staff ei hun. Fodd bynnag, pe bai aelod o staff dibrofiad sydd newydd gymhwyso yn cymryd lle staff asiantaeth, byddai hynny'n creu anghydbwysedd difrifol ac yn gwanio'r asesiadau amddiffyn plant yn benodol. Roedd hi'n sefyllfa debyg mewn perthynas â rheolaeth, yn arbennig ar lefel rheolwyr gwasanaeth. Roedd manylion ynghylch nifer a chostau staff asiantaeth i'w gweld ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.

Roedd yn amlwg bod nifer o heriau i'r Cyngor o ran cwrdd â'i gyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau bod ganddo weithlu medrus a galluog ar gyfer ei Wasanaethau Plant. Roedd swyddogion wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn i roi sylw i'r heriau gweithlu a gydnabuwyd yn y gwasanaeth ac i ddarparu ystod o gyfleon hyfforddi a datblygu ar gyfer staff. Gallai'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Staff roi'r Adran mewn sefyllfa gadarnhaol o ran gwneud cynnydd gyda llawer o'r materion hyn.

Roedd rhaid sylweddoli'r risgiau i'r sefydliad pe na bai staff cymwys a medrus yn y Gwasanaethau Plant. Roedd y cynnig (ar gyfer un Uwch Ymarferydd Ychwanegol a dau o Weithwyr Cymdeithasol ychwanegol) yn golygu bod angen £121,000 y flwyddyn yn ychwanegol at gyllideb y gwasanaeth. Bwriad y swyddi hyn, ynghyd â'r swyddi ar y sefydliad, oedd arwain at sefyllfa yn y gwasanaeth lle na fyddai unrhyw weithwyr asiantaeth yn cael eu cyflogi. Trwy ddisodli staff asiantaeth gyda gweithwyr Ynys Môn, byddai hynny'n arwain at arbedion oddeutu £150k ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn nesaf (heb weithwyr Asiantaeth). Byddai'r ychwanegiadau arfaethedig hefyd yn cefnogi manteision sylweddol yn y tymor hir o ran gwell effeithlonrwydd, gweithlu mwy sefydlog a gwell ysbryd ymysg y staff – y cyfan oll yn cyfrannu at well perfformiad a chyflawniad.

Er y llwyddwyd i wneud gwelliannau sylweddol, ni fyddai modd cynnal y gwelliant heb roi sylw boddhaol i'r materion gweithlu. Roedd y rhain yn cael effaith ar gynaliadwyedd, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a gwariant arfaethedig ar y gweithlu, a byddai'n rhaid rheoli, monitro ac adrodd ar y cyfan. Cydnabuwyd bod hynny'n golygu y byddai pwysau'n parhau ar y gyllideb ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, byddai'n cyfrannu'n sylweddol at ddull y Cyngor o reoli risg gan gyfeirio at ganlyniadau gwasanaeth, rheoli perfformiad ac osgoi costau yn y tymor hir.

*Penderfynodd y Bwrdd Cynaliadwyedd nodi cynnwys yr adroddiad ac, yn amodol ar drafodaeth foddhaol ar yr Achos Busnes yn y TUA a'r dull cyllido, cytunwyd mewn egwyddor i benodi dau weithiwr cymdeithasol ychwanegol ac un uwch ymarferydd am gyfnod cyfyngedig o hyd at 2 flynedd (er mwyn rhoi cefnogaeth hyfforddiant parhaus gyda golwg ar ostwng yn sylweddol y gwaith a wneir gan asiantaethau).*

## 5 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (GAN GYNNWYS STRATEGAETH A CHANLLAWIAU GWEITHREDOL)

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro – fod y Pwyllgor Archwilio, ar 24 Gorffennaf 2012, wedi penderfynu cyflwyno diweddariad ar y gofrestr risg i'r cyfarfod nesaf.

Fel rhan o'r diweddariad hwn, cynhaliwyd adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddrafft, y Strategaeth Rheoli Risg a Chanllawiau cysylltiedig gyda golwg ar gyflwyno drafft y cytunwyd arno o'r tair dogfen i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Medi 2012 fel bod modd iddo argymell mabwysiadu'r strategaeth a'r canllawiau gan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd y Strategaeth Rheoli Risg yn cynnwys argymhelliad i sefydlu Grŵp Rheoli Risg a fyddai'n gyfrifol yn y dyfodol am sicrhau bod y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei weithredu a'i adolygu'n barhaus. Byddai'r grŵp hwn yn gyfrifol am gynorthwyo i nodi risgiau newydd ac esblygol a'u hasesu a'u sgorio yn unol â gofynion y Strategaeth Rheoli Risg. Byddai'r Grŵp hefyd yn gyfrifol am adolygu a diweddaru'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd yn dilyn adolygiad o gofrestrau risg gwasanaethau.

Ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu'r Strategaeth a'r Canllawiau Rheoli Risg, byddai gan yr Awdurdod Fframwaith Rheoli Risg gweithredol ar gyfer nodi, gwerthuso, lliniaru ac adrodd ar risgiau corfforaethol.

Y Bwrdd Cynaliadwyedd:-

- Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a amlinellwyd ynddo;

- Nodwyd mai cyfrifoldeb Arweinydd y Cyngor fyddai'r cymeradwyo'r datganiad o reolaeth fewnol yn cymeradwyo datgelu'n gyhoeddus ganlyniad blynyddol yr asesiad hwn a'i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon blynyddol.

## 6 LLYTHYR ASESIAD GWELLA – ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Cyflwynodd Mr Huw Lloyd Jones y llythyr Asesiad Gwella dyddiedig 24 Medi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adrodd ar waith archwilio ac asesu a wnaed ynghylch a yw'r Cyngor hwn wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi cwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2009.

Gellid crynhoi'r llythyr fel a ganlyn:-

- *Roedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant dan y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru;*

- *Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, credir bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio gyda'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon;*

- *Roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i 10 thema gwella Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr;*

- *Roedd eglurder cyfeiriad y Cyngor yn gwella a gwnaed cynnydd rhesymol o ran rhoi sylw i'r cynigion ar gyfer gwelliant a nodwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf;*

- *Er nad yw'n gyflawn hyd yma, roedd ailstrwythuro'r uwch reolaeth wedi ychwanegu'n sylweddol at gapasiti a gallu'r Cyngor i sicrhau gwelliant pellach o ran swyddogaethau corfforaethol a swyddogaethau gwasanaethau penodol;*

- *Roedd y Cyngor yn delio â materion dadleuol mewn ffordd fwy aeddfed nag o'r blaen ac roedd wedi cymryd camau i sicrhau y gellir cynnal y gwelliant;*

- *Roedd y Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn dechrau ymdrin ag adnewyddu democrataidd;*

- *Roedd y Cyngor wedi ymateb mewn ffordd adeiladol a chyfrifol i'r arolygiad hynod feirniadol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru o'i wasanaethau addysg.*

Roedd y llythyr yn cyfeirio at gynigion pellach ar gyfer gwelliannau/argymhellion mewn perthynas â throsglwyddo grym i wneud penderfyniadau yn raddol o'r Comisiynwyr i'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ac ynghylch ailddiffinio rôl y Comisiynwyr fel eu bod yn awr yn monitro cynnydd y Cyngor, tra'n cadw'r grym i ymyrryd os oes angen.  Roedd y llythyr hefyd yn rhoi diweddariad i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu'r gwaith Asesiad Gwella.

Byddai SAC yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a amlinellwyd mewn adroddiadau a llythyrau blaenorol.

*Nododd a chroesawodd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad.*

**7  CHWARTER 1 – ADRODDIAD PERFFORMIAD CORFFORAETHOL**

Dywedodd y Prif Weithredwr – Yn unol â'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol, roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran perfformiad y Cyngor yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd ar draws meysydd darparu allweddol fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2012/15.

Roedd yr adroddiad hwn yn fodd i'r Cyngor bwyso a mesur cynnydd yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd ac yn galluogi'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i sgriwtineiddio a chyflawni ei swyddogaeth rheoli perfformiad.  Lle nodwyd risgiau i berfformiad, roedd swyddogion wedi sefydlu mesurau lliniarol.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa fel yr oedd ar ddiwedd Chwarter 1 (2012-13) yn dilyn y rownd gyntaf o'r trefniadau monitro perfformiad chwarterol. Byddai adroddiad ar wahân yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 8 Hydref 2012 i gyflwyno darlun y Cyngor o berfformiad yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd yn y Cynllun Busnes Corfforaethol yn ystod 2011-12.

Cyflwynwyd manylion yr adroddiad yn unol â'r weithdrefn sgorio Coch-Ambr-Gwyrdd er mwyn rhoi arwydd clir o'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â pherfformiad.  Roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am eithriadau ar bob maes perfformiad allweddol, gan ganiatáu i aelodau a swyddogion ganolbwyntio ar y gwendidau cyfredol.

Roedd paragraff 4 yr Adroddiad yn cyfeirio at fanylion gorwariannau posib o fewn 4 gwasanaeth, ynghyd â gorwariant a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer risgiau corfforaethol a llithriad ar agweddau corfforaethol y rhaglen arbedion.

Roedd y materion mewn perthynas â chwrdd â thargedau'r Cytundeb Canlyniadau yn achos pryder gan y byddai methiant i gwrdd â chytundebau canlyniadau yn arwain o bosib at golli grant

yn ystod 2012-13. Yn seiliedig ar berfformiad 2010/11, byddai cyflawniadau yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd yn golygu y derbynnir grant o 75%. Roedd y Bwrdd Cynaliadwyedd o'r farn bod angen tynhau pethau er mwyn sicrhau bod modd derbyn y grant uchaf posib.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad.*

**8 CEFNOGAETH GORFFORAETHOL AR GYFER RISGIAU A PHROSIECTAU A NODWYD**

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro – fod adroddiadau a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol wedi dwyn sylw at y prif risgiau isod yng nghyllideb 2012-13:-

- Integreiddio
- Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion
- Lleoliadau Allsirol i Blant
- Parciau a Chyfleusterau Awyr Agored
- Allanoli Canolfan Hamdden Biwmares
- Llithriad ar arbedion effeithlonrwydd Corfforaethol

Gweithredwyd prosiectau penodol i roi sylw i nifer o'r risgiau hyn a darparwyd cefnogaeth gorfforaethol ychwanegol gan gyfadrannau. O'r gorwariannau posib a nodir uchod, roedd y prif weithgareddau a oedd wedi cychwyn a'r gefnogaeth a roddwyd wedi eu rhestru ym mharagraffau 2 a 3 yr adroddiad.

Roedd rhaglen o adolygiadau gwasanaeth hefyd wedi cychwyn yn ddiweddar. Byddai'r rhain yn canolbwyntio ar nodi arbedion a'r bwriad oedd y byddant yn bwydo i mewn i Strategaeth Effeithlonrwydd ar gyfer 2013 ymlaen. Os oedd modd, byddai unrhyw arbedion a nodwyd yn cael eu gwneud yn y flwyddyn gyfredol.

Cadarnhaodd y TUA yn ddiweddar y byddai gyrru arbedion effeithlonrwydd a herio gorwariannau posib yn flaenoriaeth iddynt, er mwyn sicrhau agwedd wirioneddol gorfforaethol ar y lefel uchaf ymysg swyddogion ac i sicrhau hefyd fod deiliaid cyllidebau yn cael cymorth priodol ac yn cael eu herio. Rhagwelwyd y byddai'r rhaglen hon yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor Gwaith yn rheolaidd. Byddai'r cyllidebau risg uchel hyn yn cael eu monitro'n fisol.

Nodwyd gorwariant posib o hyd at £2.2m yn yr adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer y chwarter cyntaf. Gellid cywiro hyn yn rhannol trwy weithredoedd deiliaid cyllidebau, gyda chymorth yr Adran Gyllid a rheolaeth gadarn gan y TUA. Byddai'r Gwasanaeth Cyllid yn nodi opsiynau ar gyfer newidiadau i'r gyllideb ac yn adolygu rhagamcanion yn rheolaidd.

*Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd Cynaliadwyedd, cymeradwywyd y camau a gymerwyd a'r cynlluniau ar gyfer rheoli'r rhaglen. Nodwyd hefyd y byddai'r TUA yn adrodd yn ôl yn rheolaidd ynghylch y gorwariant posib o £2.2m a nodwyd yn yr adroddiad monitro ar y chwarter cyntaf.*

**9 CYFARFODYDD I'R DYFODOL**

*Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf am 11:00am ar ddydd Iau 29 Tachwedd, 2012.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1:00pm

**Y COMISIYNYDD MICK GIANNASI**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | RHAGFYR 2012 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGIAD O'R POLISI RHWYSTRO TWYLL A LLYGREDD** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH - ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **Argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn mabwysiadu'r polisi adolygedig.** |

## 1. <u>CYFLWYNIAD</u>

**1.1** **Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd** - Fe gafodd Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd yr Awdurdod ei adolygu ddiwethaf yn 2007 ac felly mae angen ei adolygu a'i ddiweddaru erbyn hyn. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y polisi drafft adolygedig i'w fabwysiadu gan y Pwyllgor.

**1.2** Mae'r Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd wedi'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac ar hyn o bryd wedi'i ymgorffori yn rhan 5.6 o'r ddogfen honno.

**1.3** Cyflwynwyd y Polisi Rhwystro Twyll a Llygredd i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Medi 2012 ac i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref 2012.

**1.4** Mae'n cael ei ofyn i'r Pwyllgor argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd. Mae copi o'r polisi drafft ynghlwm wrth hwn fel **Atodiad A.**

**1.5** Gofynnir hefyd i'r Cyngor fabwysiadu'r polisi adolygedig a diwygio'r Cyfansoddiad fel yn briodol. Mae copi o'r polisi wedi ei atodi yn **Atodiad A**

Pennaeth Gwasanaeth - Archwilio
Tachwedd 2012

DRAFT

**ATODIAD A**

| Enw'r Polisi | POLISI I RWYSTRO TWYLL A LLYGREDD - (ADOLYGIAD ARFAETHEDIG 2012) |
|---|---|
| Rhif y fersiwn | Fersiwn 2: 2012 |
| Dyddiad mabwysiadwyd | Medi 2012 |
| Corff yn mabwysiadu | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad yr Adolygiad Nesaf | Medi 2014 |
| Awdur | Pennaeth Gwasanaeth - Archwilio |
| Cyfrifoldeb am Weithredu | Swyddog Adran 151 |
| Cynulleidfa Darged | Holl gyflogeion, Aelodau, Partneriaid, Contractwyr, Asiantau a rhanddeiliaid eraill y Cyngor. |

## 1. YMRWYMIAD

**1.1** Mae'r Cyngor yn disgwyl y safonau uchaf o briodoldeb ac atebolrwydd oddi wrth Aelodau, cyflogeion, ymgynghorwyr, cyflenwyr, contractwyr a chyrff partner eraill.

**1.2** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n gadarn i weithio yn erbyn twyll a llygredd yn ei holl weithgareddau ac yn y gymuned ehangach a bydd yn delio'n gyfartal gyda'r rhai sy'n cyflawni hynny o'r tu mewn i'r Cyngor a thu allan iddo. Lle bynnag bydd twyll yn cael ei ddarganfod bydd ymholi iddo yn digwydd a bydd gweithredu priodol yn mynd ymlaen, i erlyn, disgyblu a / neu adennill.

**1.3** Rhan bwysig o'r ffordd hon o weithredu yw cynnal Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i gynghori ac i arwain Aelodau a staff o ran materion o weithio yn erbyn twyll a llygredd.

## 2. PWRPAS

**2.1** Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o bolisi'r Cyngor ar rwystro twyll a llygredd. Mae'r polisi wedi'i drefnu i gyflawni'r pwyntiau a ganlyn:

- Datgan nad yw'r Cyngor am oddef unrhyw dwyll a llygredd o gwbl;
- Egluro beth mae'r Cyngor yn ei olygu gyda thwyll a llygredd;
- Annog rhwystro twyll;
- Hyrwyddo canfod twyll;
- Dangos sut bydd y Cyngor yn ymholi i dwyll a llygredd;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll.

**2.2** Mae'n cael ei gydnabod bod gweithdrefnau sy'n rhwystro a chanfod twyll a llygredd hefyd yn atal a chanfod camgymeriadau gonest. Mae'r polisi wedi'i fwriadu i amddiffyn y diniwed yn ogystal â rhwystro twyll a llygredd.

DRAFT

## 3. DIFFINIADAU

**3.1** Mae'r rhai a ganlyn yn ddiffiniadau y bydd y Cyngor yn eu mabwysiadu wrth gyfeirio at y gwahanol droseddau sy'n cael eu cynnwys gan y term twyll a llygredd.

**3.2 Twyll**
Mae modd diffinio twyll fel "unigol(-yn/ion) yn mynd ati'n fwriadol i ystumio datganiadau cyllidol neu gofnodiadau eraill y tu mewn i'r Awdurdod neu'r tu allan iddo gyda golwg ar guddio camddefnyddio asedau, neu i sicrhau math arall o fudd".

**3.3** Daeth Deddf Twyll 2006 i rym yn Ionawr 2007, gan ddod â throsedd gyffredinol newydd o dwyll i fodolaeth, a thair ffordd o'i chyflawni:

- **Twyll trwy ddweud anwiredd –** lle mae unigolyn yn anonest a chan wybod yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol.

- **Twyll trwy ar gam beidio datgelu gwybodaeth** – lle mae unigolyn ar gam ac yn anonest yn methu â datgelu gwybodaeth i berson arall pan fo ganddynt ddyletswydd mewn cyfraith i'w datgelu, neu lle mae'r wybodaeth o fath lle mae'n cael ei ymddiried ynddynt i'w datgelu, neu y byddai disgwyl yn rhesymol iddynt ei datgelu.

- **Twyll trwy gamddefnyddio safle** – lle mae safle wedi cael ei roi i unigolyn lle mae disgwyl ynddo iddynt ddiogelu buddiannau ariannol person arall, a'u bod hwy'n anonest ac yn gyfrinachol yn camddefnyddio'r safle o ymddiriedaeth heb i'r person arall fod yn gwybod.

**3.4** Ar gyfer pob un o'r ffyrdd hyn o gyflawni twyll sydd wedi'u disgrifio mewn amlinell uchod, mae Deddf Twyll yn rhoi amlinelliad o ddau ofyn sylfaenol mae'n rhaid eu hateb cyn y bydd modd gwneud cyhuddiad:

- rhaid i ymddygiad y diffynnydd fod yn anonest, a hefyd

- rhaid ei fod / ei bod yn bwriadu bod ar eu hennill neu achosi colled (neu risg o golled) i rywun arall.

**3.5** Bydd y Cyngor, felly, o ran y troseddau hyn, yn cydnabod gydag unrhyw gyfeiriad yn ymwneud â thwyll:

- Nad oes angen i unrhyw golledion neu enillion fod yn digwydd – bydd bwriad i fod ar eu hennill neu i achosi colled yn cael eu gweld fel gweithred o dwyll;

- Nid oes rhaid i'r 'ennill' fod yn digwydd ar gyfer y person sy'n cyflawni'r weithred o dwyll – gallai fod ar gyfer rywun arall;

- Mae "ennill" a "cholli" yn cael eu diffinio gan Adran 5 y Deddf Twyll. Gallai fod yn arian neu eiddo arall (boed yn wirioneddol neu personol, yn ddiriaethol neu'n anniraethol) gallai fod yn barhaol neu dros dro. Mae "ennill" yn cynnwys ennill trwy gadw beth sydd gan rywun, yn ogystal ag ennill trwy gael yr hyn nad oes ganddynt, ac mae "colli" yn cynnwys colli trwy beidio â chael beth y byddai rywun wedi'i gael, yn ogystal â cholled.

**3.6** Bydd yr holl gyfeiriadau'n ymwneud â thwyll fel sydd wedi'i ddiffinio uchod yn cael eu trin yn gyntaf gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor.

**3.7 Twyll Mewnol ac Allanol**

Yn y polisi hwn, mae “Twyll Mewnol” yn cael ei ddiffinio fel twyll sy’n cael ei gyflawni gan gyflogeion neu Aelodau’r Cyngor ei hunan. Mae'n digwydd gyda’r bwriad o achosi colled i Gyngor Sir Ynys Môn, a lle mae’r twyll wedi cael ei gyflawni neu ei hwyluso o ganlyniad i safle unigolyn neu grŵp o unigolion tu mewn i’r corff. Mae “Twyll Allanol” yn cael ei ddiffinio fel twyll sy’n cael ei gyflawni gan unigolion o’r tu allan i’r corff, neu o’r tu allan i faes gwaith arferol y cyflogai, gyda golwg ar achosi colled i’r Cyngor.

**3.8 Twyll Budd-dal**

Mae modd diffinio Twyll Budd-dal fel ‘cael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Dreth Gyngor trwy ddichell, twyll o ran budd-daliadau eraill perthnasol a thwyll cysylltiedig sy’n cael ei gyflawni yn erbyn y Cyngor.’ Bydd pob achos o Dwyll Budd-dal, boed wedi’i gyflawni gan gyflogeion neu Aelodau’r Cyngor neu’r cyhoedd yn gyffredinol, yn cael ei drin fel “twyll allanol”.

**3.9** Bydd ffordd y Cyngor o ddelio gyda Thwyll Budd-dal yn wahanol i’w ffordd o ddelio gyda mathau eraill o dwyll sy’n digwydd yn erbyn y Cyngor. Heblaw am o dan amgylchiadau eithriadol, bydd Twyll Budd-dal yn cael ei ymholi yn unol gyda, ac wedi’i ddiffinio gan, Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992, gyda newidiadau iddi mewn deddfwriaeth yn dilyn hynny, yn hytrach na Deddf Twyll 2006. Mae Twyll Budd-dal yn cael ei ddiffinio gan Adrannau 111 ac 112 Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol – gydag Adran 111A yn delio gyda gwneud datganiad anonest er mwyn cael budd-daliadau ayyb ac Adran 112 yn delio gyda datganiad ffug er mwyn cael bydd-daliadau ayyb.

**3.10** Y Tîm Twyll Budd-dal, sy’n rhan o Wasanaeth Cyllid y Cyngor, fydd yn ymholi i dwyll budd-dal.

**3.11 Llygredd**

Mae llygredd yn cael ei ddiffinio fel “cynnig, rhoi, gofyn am neu dderbyn cymhelliad neu wobr allai ddylanwadu ar weithredu gan unrhyw berson”.

**3.12** Mae’r ddeddfwriaeth yn ymwneud gyda llygredd yn cynnwys Deddf Atal Llygredigaeth 1916 a Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Roedd Adran 2 o Ddeddf 1916 yn cyflwyno’r rhagdybiaeth o lygredd, oedd yn symud y baich profi mewn achosion llygredd i fod ar yr amddiffyniad. Mae’r ddeddfwriaeth yn parhau i fod heb ei newid, yn ei hanfod, hyd heddiw ac yn golygu bod rhaid i’r diffynnydd brofi, yn ôl yr hyn sy’n debygol, nad oedd rhodd neu fantais yn gymhelliad neu wobr er mwyn i rywun arall fod ar eu hennill.

**3.13** Bydd y Cyngor yn ystyried y rhagdybiaeth o lygredd, yn unol gyda Deddf 1916, wrth ymholi i honiadau o arferion llygredig.

**3.14 Troseddau cysylltiedig**

Mae’r polisi hefyd yn cynnwys y troseddau a ganlyn:

- **Dwyn**: - mae hyn wedi’i ddiffinio gan Ddeddf Dwyn 1968 fel bod yn perchnogi eiddo sy’n perthyn i arall gyda’r bwriad o amddifadu’r un arall o’r eiddo yn barhaol; a hefyd

- **Methu â datgelu diddordeb:** boed budd ariannol yn rhan o hynny ynte peidio.

DRAFT

**3.15 Llwgrwobrwyo**

Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn darparu diffiniadau o'r drosedd o lwgrwobrwyo ac yn enwi pedair prif drosedd:

**3.15.1 Llwgrwobrwyo person arall** – Bydd person yn cyflawni trosedd trwy gynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall i berson arall, yn uniongyrchol neu trwy gyfrwng rywun arall:

- gan fwriadu i'r fantais honno fod yn gymhelliad i berson gyflawni swyddogaeth yn anghywir neu i wobrwyo person am wneud hynny (boed hwy yr un person ag y cynigir y fantais iddynt ynte peidio); neu
- gwybod neu gredu y byddai derbyn y fantais yn ei hunan yn golygu cyflawni swyddogaeth yn anghywir.

**3.15.2 Cael eu llwgrwobrwyo** – Bydd person yn cyflawni'r drosedd hon trwy ofyn am, gytuno i dderbyn neu dderbyn mantais ariannol neu fantais arall, yn uniongyrchol neu trwy gyfrwng trydydd parti, er mwyn eu budd eu hunain neu fudd rywun arall:

- bydd y person dan sylw yn bwriadu, o ganlyniad, fod swyddogaeth yn cael ei gyflawni'n anghywir; neu
- bydd swyddogaeth yn cael ei gyflawni'n anghywir (boed hynny fel gwobr, gan ragweld cael neu o ganlyniad i gais, cytuno neu dderbyn). Gall y cais, cytuno neu dderbyn ynddo ei hunan fod yn golygu eu bod yn cyflawni swyddogaeth yn anghywir.

**3.15.3 Llwgrwobrwyo Ffigwr Cyhoeddus Tramor** – Bydd y drosedd hon yn cael ei chyflawni os bydd person yn cynnig neu'n rhoi mantais ariannol neu fantais arall i swyddog cyhoeddus tramor gyda'r bwriad o ddylanwadu ar y swyddog cyhoeddus tramor a chael neu gadw busnes, lle nad oedd y swyddog cyhoeddus tramor naill ai ddim yn cael eu caniatáu, na'i bod yn ofynnol gan gyfraith ysgrifenedig, iddynt gael eu dylanwadu.

**3.15.4 Methu â rhwystro Llwgrwobrwyo** – Mae cwmni yn "gaeth-atebol" am unrhyw lwgrwobr sy'n cael ei dalu gan berson yn cyflawni gwasanaethau ar ei ran, oni bo'r corff hwnnw'n profi bod gweithdrefnau digonol yn eu lle i rwystro llwgrwobrwyo.

**3.16** Y gosb uchaf am y troseddau yw 10 mlynedd o garchar a / neu ddirwy ddiderfyn. Am y drosedd "methu â rhwystro", dim ond y ddirwy yw'r gosb.

**3.17** Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 wedi dod yn weithredol yn lle'r troseddau tameidiog a chymhleth o dan gyfraith gwlad ac yn Neddf Atal Llygredigaeth 1916.

**3.18 Gwyngalchu Arian**

Y brif ddeddfwriaeth gyda gwyngalchu arian yw:

- Deddf Elw Troseddau 2002;
- Rheolau Gwyngalchu Arian 2007;
- Deddf Terfysgaeth 2000; a hefyd
- Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001.

**3.19 Diffiniad o Wyngalchu Arian**
Mae Deddf Elw Troseddau'n defnyddio'r term 'gwyngalchu arian' i gynnwys nifer o droseddau'n ymwneud ag elw o drosedd a therfysgaeth. O ran y Ddeddf, mae gwyngalchu arian yn golygu fel a ganlyn:

- celu, cuddio, newid, trosglwyddo neu symud eiddo troseddol o Loegr, Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

- bod yn ymwneud gyda threfniant rydych yn gwybod neu'n amau ei fod yn hwyluso caffael, cadw, defnyddio neu reoli eiddo troseddol.

**3.20** Mae Gwyngalchu Arian yn golygu gwybod neu amau bod rhywun maen nhw'n eu hadnabod, neu'n gwybod amdanynt, yn cael budd ariannol oddi wrth weithgareddau anonest, troseddol.

**3.21** Mae diffiniad eang ar gyfer eiddo troseddol, sy'n cynnwys yr elw oddi wrth drosedd wedi'i gyflawni gan rywun arall, ond hefyd yr elw oddi wrth drosedd yr unigolyn ei hunan. Dim ots pa mor fychan yw'r swm o arian dan sylw.

**3.22 Troseddau Gwyngalchu Arian**
Mae tair prif drosedd. Y rheini yw:

- **Celu** - lle mae rhywun yn gwybod neu'n amau bod achos o wyngalchu arian, ond yn celu neu guddio ei fodolaeth;

- **Trefnu** - lle mae rhywun yn ymwneud eu hunain gyda threfniant i gynorthwyo gyda gwyngalchu arian;

- **Caffael/Defnyddio/Meddu** - lle mae rhywun yn ceisio cael budd oddi wrth wyngalchu arian trwy gaffael, defnyddio neu feddu'r eiddo dan sylw.

**3.23** Troseddau trydydd parti yn gysylltiedig gyda hynny yw;

- **Methu â datgelu** un o'r tair prif drosedd uchod;

- **Rhoi gwybod** – lle mae rywun yn hysbysu person neu bobl sydd, neu mae amheuaeth eu bod, yn ymwneud gyda gwyngalchu arian, yn y fath ffordd nes lleihau'r tebygolrwydd y bydd ymholiadau'n digwydd iddynt, neu'n rhagfarnu ymholiadau.

**3.24 Gweithdrefnau Rhwystro Gwyngalchu Arian** - Mae gan y Cyngor bolisi ar wahân ar Wyngalchu Arian, sy'n disgrifio sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Rheolau Gwyngalchu Arian 2007. Yn y cyswllt hwn, mae'r Cyngor wedi enwebu'r Swyddog Adran 151 fel yr un i fod yn gyfrifol am unrhyw fesurau i atal gwyngalchu arian. Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian enwebedig yr Awdurdod yw'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio, neu aelod arall o'r Tîm Archwilio Mewnol yn absenoldeb y swyddog hwn.

**3.25** Mae'r Cyngor hefyd wedi gosod terfynau ar faint o arian parod mae modd ei dderbyn, sydd i'w gweld yn y ddogfen bolisi hon ar Rwystro Gwyngalchu Arian.

## 4. DIWYLLIANT

**4.1** Mae'r polisi hwn yn cynnwys holl Aelodau a staff y Cyngor. Fel sydd wedi'i ddarparu yn y Codau Ymarfer perthnasol, bydd Aelodau a Swyddogion yn arwain trwy esiampl i sicrhau sefydlu a chadw at safonau uchel o briodoldeb ac atebolrwydd, a bod ymddygiad personol yn ddi-fai gydol yr amser. Mae gan staff gyfrifoldeb wrth fynd o gwmpas eu dyletswyddau beunyddiol i fod yn effro i'r posibilrwydd o dwyll, diogelu yn ei erbyn, ac adrodd am unrhyw amheuon.

**4.2** Mae'r Cyngor hefyd yn galw am i bob unigolyn a chorff sy'n dod i gysylltiad gyda'r Cyngor weithredu gydol yr amser tuag at y Cyngor gyda'r un gonestrwydd a heb fwriad i dwyllo neu lygru. Mae disgwyl i gontractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor a chyrff sy'n cael arian oddi wrth y Cyngor gynnal gweithdrefnau tebyg, i ddiogelu rhag twyll a llygredd. Mae Rheol 4.9.7.8 Gweithdrefnau Contract yn gosod gofynion penodol ar bob contract i rwystro llygredd.

**4.3** Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl staff ac Aelodau'n cael eu hatgoffa o'r angen i fod yn wyliadwrus yn erbyn lladrad, twyll a llygredd a'u bod yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau, er mwyn cynnal ymwybyddiaeth.

## 5. CYFRIFOLDEBAU

**5.1** Mae rhwystro twyll a llygredd yn gyfrifoldeb ar holl Aelodau a staff y Cyngor yn eu gweithgareddau bob dydd. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb penodol am gyd-drefnu rhwystro twyll a llygredd wedi cael eu dynodi gan y polisi, fel sydd i'w weld isod.

**5.2** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am gyd-drefnu gweithgareddau'r Cyngor er mwyn gweithredu yn erbyn twyll a llygredd. Bydd y Swyddog, ynghyd â'r Pennaeth Swyddogaeth - Cyfreithiol a Gweinyddiaeth, yn cynghori'r Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau'r Cyngor ar bolisïau, strategaethau a gweithdrefnau i gefnogi'r polisi hwn.

**5.3** Bydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymholi i dwyll a llygredd honedig o dan y polisi hwn yn gwneud darpariaeth i Swyddog priodol fel y Pennaeth Gwasanaeth - Archwilio Mewnol gymryd gofal am unrhyw ymchwiliad unigol. Ond er gwaethaf y gweithdrefnau wrth ymholi i honiadau unigol, bydd cyfrifoldeb am gyd-drefnu gweithgareddau'r Cyngor yn erbyn twyll a llygredd yn parhau i fod gan y Swyddog Adran 151.

**5.4** Mae rheolwyr yn gyfrifol am hyrwyddo'r polisi hwn yn eu meysydd gwaith.

**5.5** Mae disgwyl i'r holl Aelodau etholedig a chyflogeion roi pob cymorth, dogfennau a mynediad y gofynnir amdanynt i'r rhai sy'n gwneud ymholiadau, a byddant yn darparu datganiadau mewn ysgrifen, yn cynnwys datganiadau i'r Heddlu os bydd gofyn iddynt wneud hynny.

**5.6** Bydd y Pwyllgor Gwaith yn monitro ac yn gweithredu'r polisïau, a'r Pwyllgor Archwilio'n cael adroddiadau am weithgareddau'n ymwneud gyda gweithredu yn erbyn twyll a llygredd a pha mor llwyddiannus ydynt.

## 6. MESURAU YN ERBYN TWYLL A LLYGREDD

**6.1 Lleihau'r cyfleoedd**
I dwyll allu digwydd, mae angen bod cyfle i'r twyllwr fedru cael arian neu fudd personol arall oddi wrth ein systemau ni. Os gallwn ni leihau'r cyfleoedd i dwyll a llygredd ddigwydd, gallwn leihau'r twyll a llygredd. Gallwn wneud hyn trwy sicrhau bod fframwaith reoli fewnol gadarn ac effeithiol yn ei lle a thrwy sicrhau nad yw trefniadau cadw a gweinyddu yn creu amgylchedd lle mae twyll a llygredd yn gallu digwydd.

**6.2 System Reoli Fewnol**
Er mwyn diogelu arian cyhoeddus, mae'n hanfodol bod cyflogeion yn cydymffurfio gyda rheolaethau a systemau mewnol sydd wedi cael eu rhoi yn eu lle gan reolwyr i rwystro twyll a llygredd. Pan fydd twyll neu lygredd wedi digwydd am fod gwendid yn systemau a gweithdrefnau'r Cyngor, bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn sicrhau bod rheolaethau priodol yn cael eu gweithredu i'w hatal rhag digwydd eto.

**6.3** Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Archwilio Mewnol yn adolygu'r rheolaethau hynny fel rhan o'u hadolygiad cyffredinol o sicrwydd, a dylent gael cefnogaeth a chydweithrediad oddi wrth yr holl reolwyr a staff.

**6.4** Mae gan reolwyr gyfrifoldeb ychwanegol am:

- Sicrhau bod y staff maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn ymwybodol o'r risg o dwyll a llygredd.
- Cymryd camau i rwystro twyll a llygredd, trwy ddefnyddio rheolaethau a monitro mewnol priodol.
- Gwneud yn sicr bod lefelau addas o siecio mewnol yn cael eu cynnwys mewn gweithdrefnau gwaith, yn benodol o ran gweithdrefnau ariannol. Mae'n hanfodol (lle bo'n bosibl yn ymarferol) bod dyletswyddau yn rhai penodol ac yn cael eu gwahanu, fel nad yw unigolion yn gallu cyflawni trafodion cyfan heb gyfraniad a/neu gadarnhad oddi wrth swyddog priodol arall.
- Gweithredu argymhellion sydd wedi cael eu cytuno ar gyfer archwilio mewnol a rheoleiddwyr eraill.
- Annog staff i adrodd pan fydd amheuaeth o dwyll, llygredd a chamddefnyddio, fel sy'n cael ei ddangos ym Mholisi Rhannu Pryderon y Cyngor.

**6.5 Archwilio Mewnol**
Mae'r Pennaeth Gwasanaeth - Archwilio i gael ei hysbysu o bob tro bydd twyll, llygredd neu amhriodoldeb yn cael eu hamau neu eu canfod. Mae hynny er mwyn ei gynorthwyo i ffurfio ei farn ar yr amgylchedd o reolaeth fewnol a rhaglen waith Archwilio Mewnol, yn ogystal â chaniatáu iddo sicrhau bod gweithredu priodol yn digwydd.

**6.6** Bydd Archwilwyr Mewnol yn wyliadwrus yn ystod eu holl waith er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o risgiau a bylchau allent ganiatáu i dwyll neu lygredd ddigwydd. Bydd Archwilwyr Mewnol hefyd yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion y gallai twyll neu lygredd fod wedi bod yn digwydd, a byddant yn hysbysu'r swyddogion priodol yn unol gyda hynny.



DRAFT

**6.7** Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod na all gweithdrefnau Archwilio ar eu pennau eu hunain, hyd yn oed pan fyddant yn digwydd gyda'r gofal proffesiynol dyledus, roi sicrwydd pendant y bydd twyll neu lygredd yn cael eu darganfod.

**6.8 Rhwystro**
Mae'r Cyngor yn ceisio rhwystro twyll a llygredd trwy:

- Codi ymwybyddiaeth o'r risg o dwyll a llygredd;
- Gwneud Aelodau a chyflogeion yn ymwybodol o'u rolau a chyfrifoldebau;
- Sicrhau bod systemau gweinyddol, fel siecio mewnol a gwahanu dyletswyddau, yn ei gwneud yn anoddach i ddwyn neu dwyll ddigwydd;
- Gweithio gydag asiantaethau a chyrff eraill.

**6.9** Dylai'r holl Aelodau a chyflogeion fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai twyll, llygredd a dwyn fod yn digwydd yn y gweithle, a'u bod yn gallu rhannu eu pryderon gyda'r bobl briodol. Rhaid i bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer codi pryderon fod wedi'u gosod allan yn eglur ac ar gael i Aelodau, cyflogeion a'r cyhoedd.

**6.10** Rhaid i'r Cyngor ddilyn gweithdrefnau recriwtio priodol wrth gyflogi staff newydd neu staff asiantaeth. Mae hyn yn cynnwys adolygu cofnodion cyflogaeth blaenorol y bobl allent gael eu penodi i fod yn staff, o ran eu priodoldeb a'u gonestrwydd. Mae hyn yn gymwys ar gyfer staff dros dro a staff parhaol. Gallai hyn gael ei wneud trwy ddefnyddio tystlythyrau oddi wrth gyflogwyr blaenorol ac adolygu cymwysterau.

**6.11** Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo ei hunan i weithio a chydweithio gyda chyrff eraill i rwystro twyll a llygredd trefnedig. Lle bynnag bo modd, bydd y Cyngor yn barod i ddatblygu ac annog cyfnewid gwybodaeth (am weithgaredd twyll a llygredd cenedlaethol a lleol) gydag awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau allanol fel yr Heddlu, grwpiau swyddogion archwilio rhyng-awdurdod, Swyddfa Archwilio Cymru ac adrannau o'r Llywodraeth (yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau).

**6.12** Mae'n arbennig o bwysig cymryd gofal priodol i amddiffyn cywirdeb a chyfrinachedd data wrth gyfnewid gwybodaeth.

**6.13 Ataliaeth**
Bydd y Cyngor yn atal twyll a llygredd trwy sicrhau bod y rhai allent wneud hynny'n ymwybodol bod y Cyngor yn wyliadwrus o ran twyll a llygredd ac y bydd yn sicrhau y bydd camau priodol yn digwydd unwaith y byddant yn cael eu canfod. Mae'r fath ataliaeth yn cael ei chadarnhau pan fydd pobl yn cael gwybod bod y manylion y byddant hwy'n eu darparu'n cael eu dilysu a'u gwirio, nid yn unig tu mewn i'r Cyngor ond hefyd rhwng cyrff cyhoeddus.

**6.14** Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i bob erlyniad llwyddiannus er mwyn dangos bod y Cyngor yn erlyn neu'n defnyddio cosbau eraill yn erbyn troseddwyr.

**6.15 Canfod ac Ymholi**
Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yn golygu ei bod yn ofynnol adrodd am amheuon o anghysondebau. Mewn achosion o honiadau o dwyll a llygredd, bydd bob tro ragdybiaeth o blaid gweithredu ffurfiol. a bydd bob tro'n cael eu barnu i fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cael ymholiad swyddogol gan Archwilio Mewnol.



DRAFT

**6.16** Bydd yr Awdurdod yn cadw adnoddau digonol i allu ymholi'n brydlon pan fydd amheuaeth o ddwyn, twyll neu lygredd ac, os bydd angen, yn adrodd ymlaen wrth yr heddlu neu awdurdodau eraill sy'n erlyn.

**6.17 Erlyn ac Adennill**
Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen, er budd y cyhoedd, fod yn erlyn (neu ddefnyddio cosbau eraill yn erbyn) y troseddwyr, er gwaethaf unrhyw annifyrrwch mae hynny'n ei achosi i'r Cyngor. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (4.8.5.3.6) a'r polisïau erlyn cymeradwy yn gosod y safonau i'w dilyn. Nod yr Awdurdod gydol yr amser yw adennill yr asedau gawsant eu dwyn neu eu twyllo, neu werth yr asedau, gan ddefnyddio pob modd sydd ar gael.

**6.18** Mae polisi cynhwysfawr, yn cynnwys erlyn ac adennill, wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer y Gwasanaeth Budd-daliadau. Bydd gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno ar gyfer rhannau eraill lle gwelir bod angen.

**6.19** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Ymateb i Dwyll, sy'n rhoi cyfarwyddyd ar sut i weithredu pan fydd twyll yn cael ei amau neu ei ganfod. Mae'n cynnwys rhannau fel: i bwy i adrodd am y twyll, cyfrifoldebau am weithredu, pwy fydd yn ymholi i'r digwyddiad a sut i drin cyflogeion fydd dan amheuaeth.

## 7. HYFFORDDIANT

**7.1** Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd parhad llwyddiant y Polisi hwn i'r dyfodol a'i hygrededd yn gyffredinol yn dibynnu, yn rhannol, ar ba mor effeithiol yw'r hyfforddiant fydd wedi'i raglennu ac ar ymateb cyflogeion ym mhob rhan o'r Cyngor.

**7.2** Bydd hyfforddiant priodol ar gael i'r holl Aelodau a staff, fydd yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn ac yn cadw atynt, ac fydd yn gwerthfawrogi mai eu heffeithiolrwydd hwy yn gyffredinol fydd yn sicrhau safonau uchel o briodoldeb ac yn rhwystro cael diwylliant gorthrymol.

**7.3** Bydd rheolwyr, archwilwyr ac ymholwyr yn cael hyfforddiant priodol ac yn dilyn gweithdrefnau gweithredu ffurfiol ar gyfer ymholi i dwyll a llygredd, ac yn cydymffurfio gyda Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, Deddf Hawliau Dynol, Deddf Diogelu Data ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

## 8. POLISÏAU A GWEITHDREFNAU I GEFNOGI

**8.1** Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys y gweithdrefnau, codau a phrotocolau allweddol a ganlyn, sy'n cefnogi'r polisi hwn:

- Rheolau Gweithdrefn Ariannol (yn cynnwys yn arbennig 4.8.2.3 sy'n galw am reolaeth gyllidol a siecio mewnol, a 4.8.5.3 sy'n sefydlu archwilio mewnol ac yn galw am adrodd pan fydd amheuaeth o anghysondebau);
- Rheolau Gweithdrefn Contractau;
- Cod Ymddygiad ac Egwyddorion Ymddygiad Aelodau (yn cynnwys yn arbennig yn 5.1.3 y gofyn i ddatgan buddiannau a chofrestru rhoddion a lletygarwch);
- Cod Ymddygiad Swyddogion (yn cynnwys yn arbennig yn 5.2.8 yr angen i ddatgan buddiannau a chofrestru rhoddion a lletygarwch);



DRAFT

- Protocol i'r Berthynas rhwng Aelodau / Swyddogion;
- Bwlio ac Ymddwyn yn Fygythiol; a hefyd
- Polisi Rhannu Pryderon (sy'n darparu llwybrau uniongyrchol ar gyfer adrodd am amheuon pan na fydd llinellau adrodd arferol ar gael); a hefyd
- Gweithdrefn Gwyno.

## 9. CYMRYD RHAN YNG NGHYNLLUNIAU ASIANTAETHAU ERAILL

**9.1** Bydd y Cyngor yn gweithredu cynlluniau yn erbyn twyll, mewn partneriaeth lle bo'n briodol, yn cynnwys:-

- cyfatebu data;
- llinellau ffôn twyll;
- rhoi cyhoeddusrwydd i weithgaredd yn erbyn twyll a gwaith erlyn;
- Menter Twyll Cenedlaethol.

Bydd y Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn cynlluniau perthnasol eraill cysylltiedig dan nawdd Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn Archwilio, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac asiantaethau eraill.

## 10. ADOLYGU'R POLISI

**10.1** Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei reolau a'i weithdrefnau, felly, mae'n hanfodol bod y Polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn iddo barhau i fod yn effeithiol a pharhau i gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth.

**10.2** Bydd y Swyddog Adran 151 yn trefnu i'r polisi hwn gael ei adolygu'n rheolaidd ac yn adrodd bob blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio ar sut mae'n gweithredu.

---

DRAFT

**ATODIAD B**

| Enw'r Polisi | CYNLLUN YMATEB I DWYLL – DRAFFT |
|---|---|
| Rhif y Fersiwn | Fersiwn 1: 2012 |
| Dyddiad mabwysiadu | Medi 2012 |
| Corff sy'n mabwysiadu | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf | Medi 2014 |
| Awdur | Pennaeth Gwasanaeth - Archwilio |
| Cyfrifoldeb am Weithredu | Swyddog Adran 151 |
| Cynulleidfa Darged | Holl gyflogeion, Aelodau, Partneriaid, Contractwyr, Asiantau a rhanddeiliaid eraill y Cyngor. |

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo ei hunan i lywodraethu corfforaethol cadarn ac i amddiffyn yr arian cyhoeddus sydd wedi cael ei ymddiried iddo. Fodd bynnag, bydd rywun sy'n benderfynol o wneud yn gallu, ar adegau, cael ffordd o gwmpas systemau a gweithdrefnau. Mae cadw unrhyw golledion oherwydd twyll cyn lleied ag y bo modd yn rhan hanfodol o sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i'r pwrpasau y bwriadwyd hwy. I'r perwyl hwn, mae Polisi'r Cyngor i Rwystro Twyll a Llygredd wedi cael ei ddatblygu a'i gynnal.

Mae angen i bob rheolwr fod yn ymwybodol o beth mae angen ei wneud os cânt wybod am amheuaeth o dwyll. Dylai'r Cynllun Ymateb i Dwyll gael ei ddarllen ar y cyd gyda'r Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd, sy'n gosod allan y prosesau ar gyfer staff sydd eisiau hysbysu am unrhyw amheuon, ac mae'n nodi sut dylai swyddogion y Cyngor fod yn ymateb. Mae'r Cynllun yn rhoi cyfarwyddyd ar sut i weithredu pan fydd amheuaeth o dwyll neu wrth ddarganfod twyll. Mae'n cynnwys rhannau fel: i bwy i adrodd am y twyll, cyfrifoldebau i weithredu, pwy fydd yn ymholi i'r digwyddiad a sut i ddelio gyda chyflogeion sydd dan amheuaeth.

Mae'n hanfodol bwysig bod pawb sy'n ymwneud gyda hyn yn dilyn y Cynllun, er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei thrin yn broffesiynol ac i ddiogelu rhag cyfaddawdu'r achos. Gallai defnyddio'r Cynllun alluogi'r Cyngor i:

- osgoi colled bellach;
- sefydlu a diogelu tystiolaeth hanfodol ar gyfer gweithredu troseddol neu ddisgyblu;
- hysbysu'r awdurdod perthnasol, y corff ariannu a'r Heddlu;
- cadw colledion cyn lleied ag y bo modd, a'u hadennill;
- cymryd camau disgyblu yn erbyn y rhai sy'n rhan o hyn;
- adolygu'r rhesymau am y digwyddiad, y mesurau a gymerwyd i rwystro rhag digwydd eto a gweithredu camau i gryfhau gweithdrefnau.

Ymhellach, mae'r Cynllun hwn yn ceisio sicrhau bod gwaith ymholi yn cydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefn y Cyngor fel a ganlyn:

- Cod Ymddygiad Staff y Cyngor;
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor;
- Polisi Rhannu Pryderon y Cyngor;
- Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor.

**Diffiniadau**
Mae'r diffiniadau o "Dwyll", "Twyll Mewnol ac Allanol", "Twyll Budd-dal" a "Llygredd" i'w gweld yn y Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd.

**Twyll Budd-dal**
Nid yw'r Cynllun yn berthnasol i Dwyll Budd-dal (fel yn y diffiniad yn y Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd), mae gweithdrefnau ar wahân ar gyfer hynny.

## 2. ADRODD PAN FYDD AMHEUAETH O DWYLL

**Gweithredu gan Staff**
Gall amheuaeth o dwyll ddod i'r golwg mewn nifer o wahanol ffyrdd, ac ym mhob achos mae'n bwysig bod staff yn gallu teimlo bod modd iddynt adrodd am eu pryderon a'u bod yn gwybod sut i wneud hynny. Bydd amheuaeth o dwyll yn cael ei drin o ddifrif ac yn cael ei adolygu a'i ddadansoddi yn unol gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd.

Dylai'r holl staff wybod bod y Cod Ymddygiad Swyddogion a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (sydd y ddau yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor) rhyngddynt yn gosod ymrwymiad ar bob cyflogai i adrodd wrth y Swyddog Adran 151 a/neu'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio pan fydd amheuaeth o achosion o dwyll, llygredd ac anghysondebau.

**Cod Ymddygiad Swyddogion, Rhan 5.2.9:** Os digwydd bod gweithiwr cymwys yn dod i wybod am weithgareddau y mae'n credu eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesol neu fel arall yn anghyson â'r Cod hwn, dylai'r gweithiwr roi gwybod am y mater, gan weithredu yn unol â'i hawliau dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, ac â gweithdrefn yr awdurdod perthnasol ar gyfer rhoi gwybod yn gyfrinachol, neu unrhyw weithdrefn arall sydd wedi'i chynllunio i'r diben hwn.

**Rheol Gweithdrefn Ariannol 4.8.5.3.6:** Pan fo rhywbeth yn ymwneud, neu a allai fod yn ymwneud ag anghysondebau gydag arian, storfeydd neu eiddo'r Cyngor neu eiddo a roddwyd yng ngofal y Cyngor, yna bydd raid rhoi gwybod yn syth am y mater hwnnw i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid neu unrhyw swyddog a nodir mewn polisi gwrth-dwyll neu erlyn cydnabyddedig, ac a fydd yn cymryd y camau hynny mae'n tybio eu bod yn angenrheidiol. Os oes tystiolaeth prima facie, ar ôl ymgynghori gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, fod unigolyn wedi torri cyfraith droseddol, ac eithrio lle y mae polisi erlyn priodol cydnabyddedig yn ei le, yna bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, ar y cyd, yn rhoi gwybod am hynny i'r Heddlu neu awdurdod erlyn priodol. Bydd polisïau gwrth-dwyll ac erlyn yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar ôl cael cyngor y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol y gall adrodd am yr amheuon hyn achosi straen a thrawma mawr (yn enwedig os bydd y person dan amheuaeth yn rheolwr llinell ar y cyflogai, neu'n gydweithiwr maen nhw'n gweithio gyda nhw bob dydd, a / neu yn rhannu swyddfa gyda nhw). O ganlyniad, mae nifer o fesurau yn eu lle i amddiffyn cyflogeion sy'n adrodd am bryderon gwirioneddol. Yn benodol, mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn annog pobl i godi pryderon am arfer drwg yn y gweithle ac yn cynorthwyo i sicrhau bod cyrff yn ymateb trwy:

- roi sylw i'r neges yn hytrach na'r negesydd; a hefyd

- gwrthsefyll y temtasiwn i guddio arfer drwg difrifol.

Mae cyfarwyddyd pellach ym Mholisi Rhannu Pryderon y Cyngor, sy'n rhoi amlinelliad o sut gall unrhyw gyflogai adrodd am amheuon. Fodd bynnag, mae'r Polisi Rhannu Pryderon yn delio gydag amrediad ehangach o lawer o arfer drwg na dim ond twyll, llygredd ac anghysondebau ariannol.

Rhaid i'r materion eraill hyn gael sylw yn ôl eu cryfderau eu hunain ac adrodd amdanynt i'r lle mwyaf priodol – fel arfer yr Uwch Reolwr neu Bennaeth Gwasanaeth perthnasol.

Bydd unrhyw bryderon a thrafodaethau dechreuol y gall fod gan y cyflogai yn cael eu trin yn sensitif ac yn gwbl gyfrinachol, ac ni ddylai unrhyw un fod ofn eu codi. Gallai fod eglurhad diniwed am beth bynnag mae'r cyflogai yn pryderu amdano – os felly, fydd dim angen gweithredu ymhellach ac o leiaf bydd y pryderon wedi cael eu datgan.

Gall aelod o staff ddewis adrodd eu pryderon yn ddienw, a bydd hynny'n cael ei barchu. Ond dylid nodi, os bydd yr adroddiad yn awgrymu bod troseddu, a bod yr Heddlu am ddilyn ymlaen gyda'r achos, bydd angen gwybod ymhellach ymlaen pwy yw'r person os yw camau cyfreithiol i fynd ymlaen yn effeithiol; byddai'n well cael gwybod bwy ydynt, a bydd o gymorth i'r ymholiadau.

Os bydd unrhyw un yn dod yn ymwybodol o amheuaeth o dwyll neu anghysondeb, dylai eu pryderon gael eu hysgrifennu i lawr mor fuan ag y bo modd yn ymarferol. Dylid nodi'r holl fanylion perthnasol, fel beth oedd yn cael ei ddweud dros y ffôn neu mewn ffyrdd eraill, y dyddiad, amser ac enwau unrhyw rai eraill yn ymwneud gyda'r mater.

Dylid adrodd am y mater ar unwaith naill ai:

- wrth eu Rheolwr Llinell, Pennaeth Gwasanaeth, Pennaeth Swyddogaeth neu eu Cyfarwyddwr eu hunan, fydd wedyn yn cysylltu gyda'r Swyddog Adran 151 a / neu Bennaeth Gwasanaeth – Archwilio; neu

- yn uniongyrchol wrth y Swyddog Adran 151 a / neu Bennaeth Gwasanaeth – Archwilio.

Wrth adrodd am eu pryderon, dylai staff drefnu i drosglwyddo unrhyw nodiadau maent wedi'u cymryd ac unrhyw dystiolaeth maent wedi'i chasglu i'r un sy'n ymholi. Bydd adroddiadau sy'n cael eu gwneud yn onest ond nad oes modd eu cadarnhau ar ôl ymholi yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Rhaid i staff beidio â gwneud unrhyw un o'r rhain:

- cysylltu gyda'r un sydd dan amheuaeth mewn ymgais i ganfod ffeithiau neu gael ad-daliad;

- trafod ffeithiau'r achos, amheuon, neu honiadau, gydag unrhyw un tu allan i'r Cyngor (yn cynnwys y Wasg) heblaw am pan fydd y Swyddog Adran 151 neu'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio wedi gofyn iddynt wneud hynny;

DRAFT

- trafod yr achos gydag unrhyw un tu mewn i'r Cyngor heblaw am eu Rheolwr Llinell, Pennaeth Gwasanaeth, Pennaeth Swyddogaeth, Cyfarwyddwr, Swyddog Adran 151 neu'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio;

- ceisio cynnal ymholiadau eu hunan, cadw golwg neu gyfweld neu holi unrhyw un.

**Gweithredu gan Reolwyr**
Os bydd gan reolwyr reswm i amau bod twyll neu lygredd yn digwydd yn eu maes gwaith hwy, dylent wneud fel a ganlyn:

- Gwrando ar bryderon staff a thrin pob adroddiad sy'n dod i mewn o ddifrif ac yn sensitif, gan wneud yn sicr bod holl bryderon y staff yn cael gwrandawiad teg. Dylai rheolwyr hefyd sicrhau staff na fyddant yn dioddef oherwydd eu bod wedi dweud wrthynt am eu pryderon.

- Cael cymaint o wybodaeth ag y bo modd oddi wrth yr aelod o staff, yn cynnwys unrhyw nodiadau a thystiolaeth allai fod ganddynt i gefnogi'r honiad. Ni ddylai rheolwyr ymyrryd gydag unrhyw dystiolaeth, a dylent wneud yn sicr ei fod yn cael ei gadw mewn lle diogel.

- Adrodd am y mater ar unwaith wrth y Swyddog Adran 151 neu'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio. Rhaid iddynt beidio â cheisio gwneud eu hymholiadau eu hunain na gofyn i unrhyw unigolyn gael gwybodaeth bellach yn gudd, gan y gallai hynny gyfaddawdu tystiolaeth (a thrwy hynny atal gweithredu priodol i ddisgyblu neu erlyn am drosedd, ymhellach ymlaen).

**Gweithredu gan Archwilwyr**
Os bydd archwilwyr mewnol y Cyngor, yn ystod archwiliad, yn darganfod beth maen nhw'n ei amau sy'n dwyll, llygredd neu ymddygiad amhriodol, rhaid iddynt gadw tystiolaeth yn ddiogel a gwneud nodiadau manwl o'r holl dystiolaeth a gasglwyd. Wedyn dylent adrodd am eu hamheuon ar unwaith wrth y Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio y cyfle cyntaf sydd ar gael. Bydd y broses ymholi (rhan 4 isod) yn dilyn wedyn.

## 3. HONIADAU MALEISUS

Os bydd honiad yn cael ei wneud yn wamal, yn faleisus neu ar gyfer budd personol, gallai camau disgyblu ddigwydd yn erbyn yr un sy'n gwneud yr honiad.

## 4. Y BROSES YMHOLI

Mae Archwilio Mewnol yn gyfrifol am ddechrau a goruchwylio yr holl ymholiadau i dwyll. Bydd Archwilio Mewnol yn sicrhau bod yr holl ymholiadau'n cyd-fynd gyda'r un safon ac yn unol gyda'r ddeddfwriaeth. Bydd angen ymholi mor fuan ag y bo modd i bob honiad o dorri rheolau a safonau'r Cyngor, heblaw am pan fydd y rheolwr llinell perthnasol o'r farn mai trosedd fechan oedd yr un honedig. Fodd bynnag, yn unol gyda'r Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd, ni ddylai unrhyw reolwr farnu bod honiadau o dwyll, llygredd neu anghysonderau ariannol yn droseddau bychain.

Nid yw'r drefn ymholi yn rhan o'r drefn ddisgyblu; dim ond proses yw hi o gasglu'r holl ffeithiau yn ymwneud gyda'r honiadau, a bydd hyn yn cael ei ddatgan yn eglur wrth unrhyw gyflogai sy'n cynorthwyo'r Cyngor gyda'r fath ymholiad.

Ni fydd canlyniadau ymholiadau'n cael eu datgelu na'u trafod gydag unrhyw un heblaw am y rhai gyda hawl cyfreithlon i wybod. Mae hyn yn bwysig er mwyn osgoi niweidio enw da'r bobl sydd dan amheuaeth ond y gwelir wedyn eu bod yn ddieuog o gamymddwyn, ac i amddiffyn y Cyngor rhag posibilrwydd o atebolrwydd sifil.

Mewn achosion lle mae unigolyn dan amheuaeth o dwyll ond nad yw'r ymholiadau wedyn yn cadarnhau hynny, mae'n bwysig cadw'r niwed posibl i enw da'r unigolyn cyn lleied ag y bo modd. Bydd pwy bynnag wnaeth adrodd i ddechrau am yr amheuaeth o dwyll neu anghysondeb yn cael eu hysbysu nad yw'r ymholiadau wedi canfod unrhyw gamweithredu.

Bydd unrhyw weithgaredd ymholi mae angen amdano yn digwydd heb barchu perthynas unrhyw berson gyda'r Cyngor, eu sefyllfa na hyd eu gwasanaeth.

Unwaith bydd yr ymholiad wedi gorffen, bydd Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad mewn ysgrifen sy'n rhoi'r ffeithiau mae'r ymholiad wedi'u darganfod. Bydd yr adroddiad yn osgoi dyfalu ac ni fydd unrhyw beth yn cael ei ddatgan os na ellir ei gefnogi gyda ffeithiau.

## 5. SYMUD YMLAEN I GYMRYD CAMAU

Lle mae tystiolaeth yn bodoli i gefnogi'r honiad o dwyll neu lygredd, bydd y posibilrwydd yn cael ei ystyried o redeg yr ymholiad ar "dri thrywydd". Hynny yw, a ddylai'r camau sydd i ddigwydd fod yn rhai troseddol, sifil neu ddisgyblu neu gyfuniad o'r tri.

**Camau Disgyblu**

Lle mae tystiolaeth wedi cael ei chasglu o dwyll neu lygredd, bydd yr adroddiad Archwilio Mewnol sy'n cael ei ddisgrifio uchod bob tro'n cael ei ddefnyddio fel cofnod ffurfiol o ymholiad. Y Rheolwr Llinell perthnasol fydd yn cynnal y camau disgyblu, gan ddefnyddio adroddiad ymholiad Archwilio Mewnol fel prif dystiolaeth; dylid cael yr archwiliwr / archwilwyr fu'n ymholi i gyflwyno tystiolaeth mewn gwrandawiad disgyblu. Fodd bynnag, ni fydd ymholwyr Archwilio Mewnol yn rhan o banel disgyblu.

**Camau Troseddol**

Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.6) yn dweud y bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol ac wedyn, lle mae tystiolaeth prima facie o dorri'r gyfraith droseddol gan unrhyw berson, heblaw am le mae polisi erlyn priodol wedi cael ei gymeradwyo, yn adrodd ar y mater ar y cyd gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol wrth yr Heddlu neu awdurdod erlyn priodol.

Os bydd yn ymwneud gyda chyflogai, bydd camau disgyblu'n digwydd fel mater o frys yn unol gyda Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor, boed y mater yn cael ei gyfeirio at yr Heddlu ynte peidio.

Os bydd yr Heddlu'n penderfynu bod angen ymholiad ffurfiol, bydd disgwyl i'r holl staff gydweithredu'n llawn gydag unrhyw gais neu argymhelliad yn dilyn hynny. Fel arfer, bydd pob cyswllt gyda'r Heddlu ar ôl iddynt ddod i gysylltiad i ddechrau yn digwydd trwy Archwilio Mewnol.

**Camau Sifil**

Lle mae'r Cyngor wedi dioddef colled, bydd ymgais i gael adferiad am unrhyw fudd neu fantais a gafwyd, a bydd ymgais i adennill costau oddi wrth unigolyn / ion sy'n gyfrifol am dwyll.

Fel cam cyntaf, bydd cais yn cael ei wneud i'r unigolyn wneud iawn am y golled. Gallai fod yn briodol ystyried adennill oddi wrth unrhyw arian sy'n ddyledus i'r unigolyn ar adeg gorffen (os mai cyflogai yw'r unigolyn). Dylid gofyn cyngor y Swyddog Adran 151 a Gwasanaethau Cyfreithiol cyn ceisio adennill.

DRAFT

Os na fydd yr unigolyn yn gwneud iawn am y golled, dylid ystyried cymryd camau cyfreithiol sifil i adennill y golled, yn amodol ar gyngor cyfreithiol. Gan mai arian y trethdalwyr yw'r arian sydd wedi cael ei gymryd, gall y camau adennill sifil fod yr un mor bwysig ag erlyniad llwyddiannus. Bydd modd defnyddio atebion sifil hyd yn oed os bydd achos troseddol yn methu, neu os na fydd camau cyfreithiol troseddol wedi digwydd, oherwydd bod yr angen am dystiolaeth yn wahanol.

Fel cam olaf os, ar sail cyngor cyfreithiol, na fydd gweithredu adferiad sifil yn digwydd, gellir defnyddio Polisi Yswiriant Gwarantu Ffyddlondeb y Cyngor i adennill colledion. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae twyll wedi digwydd yn dilyn rheolaeth neu oruchwyliaeth arbennig o wael efallai na fydd y swm llawn yn cael ei adennill.

Beth bynnag sy'n digwydd, rhaid parhau i adael i'r Rheolwr Risg ac Yswiriant wybod beth sy'n mynd ymlaen, o adeg yn gynnar ymlaen yn yr ymholiad, er mwyn sicrhau bod yr hawliadau yswiriant yn cael sylw mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd.

**Gweithredu yn Gyfochrog**

Does dim rheswm cyfreithiol pam na ddylai'r tri math o gamau sy'n cael eu rhestru uchod fod yn mynd ymlaen ar yr un pryd, neu o leiaf yn gorgyffwrdd gyda'i gilydd. Yn gyffredinol, ni fydd y llysoedd yn rhoi blaenoriaeth awtomatig i gamau gweithredu troseddol. Ni ddylai ffurfiau eraill o weithredu gael eu gohirio hyd nes bydd gwrandawiad troseddol wedi gorffen, heblaw am pan fydd perygl gwirioneddol – yn hytrach na dim ond tybiaeth – y byddai neu y gallai datgelu'r amddiffyniad yn ystod gweithredu sifil arwain at bosibilrwydd o aflwyddiant cyfiawnder (trwy, er enghraifft, alluogi tystion yr erlyniad i baratoi i ffugio tystiolaeth).

## 6. DYSGU ODDI WRTH BROFIAD

Lle mae twyll wedi digwydd, rhaid i reolwyr wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau na fydd twyll tebyg yn digwydd eto. Lle bo'n briodol, bydd gwaith adrodd Archwilio Mewnol yn cynnwys egluro lle mae goruchwyliaeth wedi methu, neu lle mae rheolaeth wedi torri i lawr/ddim wedi digwydd. Bydd yr adroddiadau hynny'n rhoi argymhellion ar gyfer osgoi bod hyn yn digwydd eto, o ran y maes penodol lle mae'r twyll wedi digwydd a hefyd, lle bo'n briodol, yn y cyswllt ehangach o weinyddiaeth y Cyngor.

---

DRAFT

**ATODIAD C**

| Enw'r Polisi | POLISI A CHYFARWYDDYD DRAFFT YN ERBYN GWYNGALCHU ARIAN |
|---|---|
| Rhif y Fersiwn | Fersiwn 1: 2012 |
| Dyddiad mabwysiadu | Medi 2012 |
| Corff sy'n mabwysiadu | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf | Medi 2014 |
| Awdur | Pennaeth Gwasanaeth - Archwilio |
| Cyfrifoldeb am Weithredu | Swyddog Adran 151 |
| Cynulleidfa Darged | Holl gyflogeion y Cyngor, yn enwedig y rhai'n ymwneud gyda thrafodion tir neu eiddo, trefnu benthyciadau neu dderbyn arian parod. |

**Pwrpas**

Pwrpas y Polisi yw cynyddu ymwybyddiaeth y staff o beth mae gwyngalchu arian yn ei olygu a'r cyfrifoldebau cyfreithiol mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn eu gosod ar **gyrff ac unigolion**. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff, ond ar ran y Cyngor.

Mae'n bolisi gan y Cyngor i wneud popeth y gall i rwystro, lle bynnag bo modd, y Cyngor a'i staff rhag bod yn agored i wyngalchu arian. Mae'n bwriadu gwneud hynny trwy ganfod yr holl fannau posibl lle gallai ddigwydd a chydymffurfio gyda'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, yn enwedig mewn perthynas ag adrodd am amheuaeth ei fod yn digwydd neu lle mae'n digwydd mewn gwirionedd.

**Rhaid pwysleisio, fodd bynnag, ei bod yn gyfrifoldeb personol ar bob aelod o staff i fod yn wyliadwrus.**

**Prif Ddeddfwriaeth**

Y brif ddeddfwriaeth o ran gwyngalchu arian yw:

- Deddf Elw Troseddau 2002;
- Rheolau Gwyngalchu Arian 2007;
- Deddf Terfysgaeth 2000; a hefyd
- Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001.

## Diffiniad o Wyngalchu Arian

Mae Deddf Elw Troseddau'n defnyddio'r term 'gwyngalchu arian' i gynnwys nifer o droseddau'n ymwneud ag elw o drosedd a therfysgaeth. O ran y Ddeddf, mae gwyngalchu arian yn golygu fel a ganlyn:

**1.** celu, cuddio, newid, trosglwyddo neu symud eiddo troseddol o Loegr, Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

**2.** bod yn ymwneud gyda threfniant rydych yn gwybod neu'n amau ei fod yn hwyluso caffael, cadw, defnyddio neu reoli eiddo troseddol.

Mae gwyngalchu arian yn golygu gwybod neu amau bod rhywun maen nhw'n ei adnabod, neu'n gwybod amdanynt, yn cael budd ariannol oddi wrth weithgareddau anonest, troseddol.

Mae diffiniad eang ar gyfer eiddo troseddol, sy'n cynnwys yr elw oddi wrth drosedd wedi'i gyflawni gan rywun arall, ond hefyd yr elw oddi wrth drosedd yr unigolyn ei hunan. Dim ots pa mor fychan yw'r swm o arian dan sylw.

### Troseddau Gwyngalchu Arian

Mae tair prif drosedd. Y rheini yw:

**i)** **Celu** - lle mae rhywun yn gwybod neu'n amau bod achos o wyngalchu arian, ond yn celu neu guddio ei fodolaeth;

**ii)** **Trefnu** - lle mae rywun yn ymwneud eu hunain gyda threfniant i gynorthwyo gyda gwyngalchu arian;

**iii)** **Caffael/Defnyddio/Meddu** - lle mae rhywun yn ceisio cael budd oddi wrth wyngalchu arian trwy gaffael, defnyddio neu feddu'r eiddo dan sylw.

Troseddau trydydd parti yn gysylltiedig gyda hynny yw;

**i)** **Methu â datgelu** un o'r tair prif drosedd uchod;

**ii)** **Rhoi gwybod** - lle mae rhywun yn hysbysu person neu bobl sydd, neu mae amheuaeth eu bod, yn ymwneud gyda gwyngalchu arian, yn y fath ffordd nes lleihau'r tebygolrwydd y bydd ymholi yn digwydd iddynt, neu'n rhagfarnu ymholiad.

### Gweithdrefnau'r Cyngor yn Erbyn Gwyngalchu Arian

**i)** <u>Swyddog Enwebedig</u>

O dan Ddeddf Elw Troseddau 2002 a Rheolau Gwyngalchu Arian 2007 mae'n ofynnol bod cyrff yn penodi 'swyddog enwebedig'. Y swyddog yma sy'n gyfrifol am gael adroddiadau am amheuon o wyngalchu arian (neu eiddo arall) sy'n ymwneud gyda'r elw oddi wrth unrhyw fath o drosedd. Bydd hefyd yn gyfrifol am adrodd am yr amheuon hyn wrth SOCA, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol.

Mae'r Cyngor wedi enwebu'r Swyddog Adran 151 fel y swyddog sy'n gyfrifol am unrhyw fesurau yn erbyn gwyngalchu arian. Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian yr Awdurdod yw'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio neu aelod arall o'r Tîm Archwilio Mewnol yn absenoldeb y swyddog hwn.

**ii) Cyfyngiadau ar Dderbyn Symiau o Arian Parod**

Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw swm o 7,500 Ewro (tua £5,000) mewn arian parod, a rhaid adrodd wrth y Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian os bydd unrhyw un yn ceisio gwneud y fath daliad.

**iii) Hyfforddi Staff**

O dan Ddeddf Elw Troseddau 2002 a Rheolau Gwyngalchu Arian 2007 mae'n ofynnol bod cyrff yn sicrhau bod y staff perthnasol yn cael eu hyfforddi mewn ymwybyddiaeth a gweithdrefnau yn erbyn gwyngalchu arian.

Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant wedi'i ddiweddaru ar weithredu yn erbyn gwyngalchu arian, i arianwyr, staff Cyllid a staff sy'n ymwneud gyda thrafodion eiddo neu drefnu benthyciadau.

**iv) Trefniadau Adrodd yn Erbyn Gwyngalchu Arian**

Mae'r Cyngor wedi dyfeisio gweithdrefnau ar gyfer adrodd am drafodion amheus, os bydd angen, gan adrodd yn y ffordd briodol wrth SOCA, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol.

**v) Gweithdrefnau Cadw Cofnodion**

Bydd y Cyngor yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer cadarnhau a chofnodi pwy yw gwrthbartïon ac adrodd am amheuon.

### Adrodd am Achosion Lle mae Amheuaeth o Wyngalchu Arian

Os byddwch yn amau bod achos o wyngalchu arian, neu fod arian parod dros y swm o £5,000 (7,500 Ewro) yn cael ei dalu i mewn, dylech adrodd ar unwaith wrth y Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian trwy ffonio 01248 752611 neu e-bostio'r manylion i JFXFI@ynysmon.gov.uk . Bydd y Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian yn ystyried amgylchiadau pob achos ac yn penderfynu a oes angen adrodd am y mater wrth SOCA, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol.

### Oblygiadau i Staff

Er y credir bod y canlyniadau o staff yn cyflawni trosedd yn annhebyg, mae **peidio datgelu** pan fydd amheuaeth o wyngalchu arian yn drosedd ddifrifol ynddi ei hunan, ac mae staff yn cael eu cynghori i adrodd ar unwaith am unrhyw amheuaeth o'r fath.

Mae'r cosbau am droseddau gwyngalchu arian yn dibynnu ar ba mor ddifrifol ydynt. Gall pobl gael dirwyon o hyd at £5,000 a / neu hyd at chwe mis o garchar mewn achosion Llys Ynadon. Mewn achosion yn Llys y Goron gall y dirwyon fod yn ddiderfyn a'r dedfryd o garchar fod rhwng dwy flynedd a phedair mlynedd ar ddeg.

### Enghreifftiau o Weithgareddau Amheus

Mae pobl sy'n cymryd rhan mewn trosedd neu drin eiddo troseddol angen ffyrdd o ddiogelu'r elw oddi wrth eu gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys gwyngalchu'r arian maent yn ei gael oddi wrth y fath weithgareddau. Dyma rai o'r sefyllfaoedd sy'n gallu achosi amheuon fod gwyngalchu arian yn digwydd:

- Unrhyw drafodion gyda symiau anghyffredin o fawr o arian parod;
- Gwneud taliadau mewn arian parod sy'n fwy na'r hyn mae angen ei dalu, a chael ad-daliad am eu bod wedi gwneud hynny.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Y Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | Pwyllgor Gwaith 03.12.12<br>Cyngor Llawn 06.12.12 |
| **Pwnc** | Gwneud y newidiadau i’r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio (Adran 4.6 y Cyfansoddiad) yn rhai parhaol |
| **Deilydd Portffolio** | Y Cynghorydd Robert Lloyd Hughes |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Swyddog Cyswllt** | Robyn Jones (x2134) |

**Rheswm am yr adroddiad:**

1.1 Gwneud y newidiadau i’r Cyfansoddiad, adran 4.6: Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio, yn barhaol yn dilyn diwedd cyfnod arbrofol o 12 mis.

1.2 Gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith wneud argymhelliad i’r Cyngor llawn mewn perthynas â’r newidiadau parhaol a gofynnir i’r Cyngor llawn wneud penderfyniad i wneud y newidiadau hynny yn rhai parhaol.

**A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion**

2.1 Yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2011, gwnaeth y Bwrdd Comisiynwyr newidiadau i’r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio (y Rheolau) yn dilyn cyfnod sylweddol o ymgynghori gydag amrediad o gydranddeiliaid.

2.2 Roedd y newidiadau yn ymwneud â nifer o faterion yn amrywio o gyfyngiadau mewn perthynas ag ymddygiad aelodau yn y Pwyllgor Cynllunio i egluro pa geisiadau gan ba swyddogion y dylid eu cyfeirio i’r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer penderfyniad.

2.3 Mae’r newidiadau a’r rhesymau amdanynt wedi eu nodi yn yr Atodiad i’r adroddiad hwn. Mae’n cynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i’r Bwrdd Comisiynwyr ym Mehefin 2012 ynghyd â’r rhesymeg am y newidiadau a’r rhesymau am eu gweithredu.

2.4 Cododd yr adolygiad o’r Rheolau yn wreiddiol fel rhan o Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ac argymhellion a wnaed i’r Pwyllgor Cynllunio a’u Cynllun Gweithredu mewn ymateb i hynny.

2.5 Dan y Cyfarwyddyd Gweinidogol oedd mewn grym adeg hynny, mater i’r Gweinidog oedd gwneud newidiadau i’r Cyfansoddiad. Gwnaeth y newidiadau angenrheidiol trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig dyddiedig 20 Tachwedd 2011 i’r Cyngor. Gweithredwyd y newidiadau wedi hynny ac mae’r trefniadau wedi bod

mewn grym ers hynny.

2.6 Gwnaed y newidiadau am gyfnod arbrofol o 12 mis ac mae'r cyfnod hwnnw bellach wedi dod i ben.

2.7 Mae'r mater yn cael ei ailgyflwyno i aelodau gydag argymhelliad y dylid gwneud y newidiadau yn rhai parhaol. Gofynnir am ddirprwyo grym i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn gweithredu'r argymhelliad.

**B – Ystyriaethau**

3.1 Yn ychwanegol at nifer o fân newidiadau a newidiadau dilyniadol, roedd tri phrif newid. Y rhain oedd:

3.1.1 Rhwystro aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio rhag cynnig, eilio neu bleidleisio ar gais a oedd wedi ei leoli yn eu wardiau.
3.1.2 Bod rhaid i holl Aelodau'r Pwyllgor sy'n pleidleisio ar gais fod wedi bod yn bresennol yn yr holl drafodaethau blaenorol ynglŷn â'r cais hwnnw yn y Pwyllgor gan gynnwys unrhyw ymweliad swyddogol ar y safle, a
3.1.3 Newidiadau i'r rheolau yn egluro pa geisiadau cynllunio gan Aelodau a Swyddogion a'u perthnasau ddylai gael eu penderfynu gan y Pwyllgor yn hytrach na chan y swyddogion dan y pwerau a ddirprwywyd iddynt.

3.2 Nodi'r rhesymau am y newidiadau yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn. Mae'r swyddogion o'r farn bod y rhain yn parhau i fod yn ystyriaethau perthnasol.

3.3 Yn ymarferol, nid yw swyddogion yn ymwybodol bod y newidiadau i'r Rheolau wedi achosi unrhyw broblemau sy'n cael effaith ar y broses gwneud penderfyniadau.

3.4 Mae'r rheolau newydd ar geisiadau gan aelodau a swyddogion wedi gweithio heb unrhyw broblem. Mae'r newidiadau hyn yn well na'r fersiwn flaenorol oherwydd maent yn rhoddi mwy o sicrwydd ac eglurder ynglŷn â'r ceisiadau hynny y mae angen yn awr eu hadrodd i'r Pwyllgor ar gyfer penderfyniad. Ym marn y swyddogion, dylid gwneud y newid hwn yn un parhaol.

3.5 Mae'r ddau newid sy'n effeithio ar aelodau'r Pwyllgor Cynllunio hefyd wedi bod yn gweithredu heb unrhyw broblem y gwyddys amdani. Nid yw'r problemau posibl a allai godi oherwydd diffyg cworwm ar y Pwyllgor oherwydd nad oedd aelodau'r Pwyllgor yn gallu pleidleisio am nad oeddent wedi bod ar yr ymweliad safle, wedi codi hyd yma. Oherwydd bod nifer yr ymweliadau â safleoedd wedi gostwng a chyda'r tebygrwydd y bydd y tueddiad hwn yn parhau, nid oes rheswm i ddisgwyl y bydd y risg hon yn codi yn y dyfodol.

3.6 Ym marn y swyddogion, mae rhesymau'r a roddwyd am wneud y newidiadau fel y cawsant eu hadrodd yn yr argymhelliad i'r Bwrdd Comisiynwyr yn parhau i fod yn rhai cadarn a chall. Bydd gwneud y newidiadau hyn yn rhai parhaol:

3.6.1 Yn ychwanegu at eglurder, tryloywder a sicrwydd o ran y penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor. Bydd o gymorth i warchod y broses gwneud penderfyniadau rhag amgyffrediad negyddol o du'r cyhoedd.
3.6.2 Byddant o fudd i aelodau'r Pwyllgor oherwydd maent yn rhoddi iddynt warchodaeth o ran eu cyfraniad nhw i'r broses gwneud penderfyniadau.
3.6.3 O fudd i'r Swyddogion Cynllunio trwy roddi iddynt sicrwydd ynglŷn â cheisiadau gan aelodau a swyddogion y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio eu penderfynu.

| **C – Goblygiadau ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Dim sylwadau wedi eu derbyn |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae swyddog cyfreithiol y Pwyllgor yn gyd-awdur yr adroddiad ac mae ei sylwadau wedi ei fynegi ynddi |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | Dim yn berthnasol |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **5** | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | Dim yn berthnasol |
| **6** | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Ni fydd y newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd darparu eglurder, tryloywder a sicrwydd yn y broses gwneud penderfyniadau o gymorth i sicrhau bod pawb yn cael triniaeth deg. |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **8** | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim sylwadau |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Mi oedd y bwriad gwreiddiol yn destun ymgynghori helaeth fel y nodir yn yr Atodiad |
| **10** | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| **11** | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | Dim yn berthnasol |

**CH – Crynodeb**

4.1 Gwnaed y newidiadau i'r Rheolau ym mis Tachwedd 2011 yn dilyn cyfnod maith o ymgynghori gyda chydranddeiliaid.

4.2 Yr hyn sbardunodd y newidiadau oedd Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol o'r Gwasanaeth Cynllunio ac angen i roddi yn ei lle weithdrefn gadarn i warchod aelodau a swyddogion sy'n rhan o'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio ac i warchod y system rhag amgyffrediad cyhoeddus andwyol.

4.3 Gwnaed y newidiadau gan y Gweinidog am gyfnod arbrofol o 12 mis. Mae'r cyfnod arbrofol hwnnw bellach wedi dod i ben a gofynnir i'r Cyngor ystyried gwneud y newidiadau hynny yn rhai parhaol.

4.4 Nid yw profiad ymarferol yn ystod y cyfnod arbrofol wedi arwain at dystiolaeth nad yw'r newidiadau'n gweithio nac ychwaith eu bod wedi llesteirio'r broses gwneud penderfyniadau gan y Pwyllgor Cynllunio.

**D – Argymhelliad**

5.1 Dyma'r argymhellion:

I'r Pwyllgor Gwaith:

5.2 Argymell i'r Cyngor llawn bod y newidiadau a wnaed i Gyfansoddiad y Cyngor gan y Gweinidog i'r Rheolau (am gyfnod arbrofol o 12 mis o 20 Tachwedd 2011) ac fel y manylir arnynt yn yr adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Mehefin 2011 (yr Atodiad i'r adroddiad hwn) yn cael eu gwneud yn rhai parhaol.

I'r Cyngor llawn:

5.3 Gwneud yn barhaol y newidiadau a wnaed i Gyfansoddiad y Cyngor gan y Gweinidog i'r Rheolau (am gyfnod arbrofol o 12 mis o 20 Tachwedd 2011) ac fel y manylir arnynt yn yr adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Mehefin 2011 (yr Atodiad i'r adroddiad hwn), a

5.4 Dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) y grym i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn gweithredu penderfyniad y Cyngor.

**Enw awdur yr adroddiad: Robyn W. Jones**
**Teitl Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Dyddiad: 15 Tachwedd 2012**

| **Atodiadau:** |
|---|
| Copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod o'r Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Mehefin 2011 ynghyd â'r papurau amgaeedig. |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| Adroddiadau a phapurau eraill a gyflwynwyd i gyfarfodydd cyhoeddus o'r Cyngor a'i Bwyllgorau yn ystod y broses o adolygu'r Rheolau. |

ATODIAD

**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **CYFARFOD Y BWRDD COMISIYNWYR** |
| **DYDDIAD** | **20 MEHEFIN 2011** |
| **PWNC** | **ADOLYGU'R RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO** | **ALEX ALDRIDGE**<br>**MICK GIANNASI** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PRIF WEITHREDWR DROS DRO**<br>**CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**<br>**PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Robyn Jones (Rhif Ffôn : 01248 752134)** |

**1. Cadarnhewch natur yr adroddiad os gwelwch yn dda trwy glicio un o'r blychau isod**

Er gwybodaeth……….. ☐

Gweithredol…………...... ☒

Strategol………………. ☐

**2. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Comisiynwyr**

Cael argymhelliad gan y Comisiynwyr. Bydd unrhyw newidiadau i'r Rheolau yn golygu newid i'r Cyfansoddiad i'w wneud gan y Gweinidog. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor llawn am sylwadau.

**3. Crynodeb o'r adroddiad**

Newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio yn dilyn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol (ALIC) i faterion cynllunio gan SAC a PwC yn 2009. Roedd yr adolygiad yn rhan o Gynllun Gwella'r Adran Gynllunio yn 2010-11.

**4. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau**

Argymhelliad :

Bod y Comisiynwyr yn gwneud argymhelliad ar y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau:

(i) Pa geisiadau gan aelodau, swyddogion a'u perthnasau ddylai gael eu cyfeirio i'r Pwyllgor am benderfyniad yn hytrach na derbyn sylw gan y swyddogion.

(ii) Ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae hyn yn cynnwys bod yn bresennol ar unrhyw ymweliad safle swyddogol. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais neu unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais.

(iii) Ni fedr aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio sy'n cynrychioli'r ward y mae safle datblygu wedi'i leoli ynddi bleidleisio na gynnig nac eilio argymhelliad ar gais o'r fath.

Rhesymau :

Rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed gan SAC a PwC yn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 fel y cawsant eu hymgorffori yn y Cynllun Gwella Cynllunio .

Newidiadau i dynhau ac egluro geiriad y Rheolau a chydymffurfio gydag arferion gorau.

Rhoi sylw i bryderon posibl ynghylch y canfyddiad y gallai cynghorydd lleol fod â rhan yn y broses o wneud penderfyniad fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

Sicrhau bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'r holl ystyriaethau blaenorol sy'n berthnasol i gais cyn gwneud penderfyniad.

**5. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod**

Gwrthodwyd yr opsiwn o beidio â gwneud newidiadau oherwydd byddai hynny'n fethiant i roi sylw i'r argymhellion yn ALIC 2009.

## 6. Ymgynghori

6.1 Cyllid/Adran 151……............................. ☒ do………☐ naddo

6.2 Swyddog Cyfreithiol/Monitro……………..... ☒ do………☐ naddo

6.3 Adnoddau Dynol………………...................... ☐ do………☐ naddo…….☒ amherth

6.4 Gwasanaethau Eiddo…………………….... ☐ do………☐ naddo…….☒ amherth

6.5 Uned Gyfathrebu……............................. ☐ do………☒ naddo

6.6 Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys aelodau):

## 7. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi

Dim

## 8. Materion Amgylcheddol

A yw'r mater / eitem yn ymwneud â:

1. Bywyd gwyllt (bioamrywiaeth) o dan Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol ………….☐ do……. ☒ naddo ….☐ amherth a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006*

2. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn o dan Rhan 85 o'r Deddf ……..☐ do…….☒ naddo …. ☐ amherth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000**

(*Gall Gynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol roi cyngor: est. 2470)
(**Gall Swyddog Cefn Gwlad ac AHNE roi cyngor: est. 2429)
Nodiadau

## 9. Papurau cefndirol

Cynllun Gwella ar gyfer y Broses Gwneud Penderfyniadau Cynllunio 2010-11

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | CYFARFOD Y BWRDD COMISIYNWYR |
| DYDDIAD: | 20 MEHEFIN 2011 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | ADOLYGU RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO |
| ADRODDIAD GAN: | PRIF WEITHREDWR DROS DRO<br>CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL / SWYDDOG MONITRO A'R PENNAETH GWASANAETH (CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD) |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | YSTYRIED MABWYSIADU'R NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R RHEOLAU |

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Yn eu cyfarfod ar 26 Ebrill, rhoes y Comisiynwr sylw i fabwysiadu rheolau gweithdrefn mewn perthynas â rhan Cynghorwyr yn y broses gwneud penderfyniadau.

1.2 Ystyriodd y Comisiynwyr ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori yn y Cyngor, cyd-destun y canfyddiadau mewn perthynas â materion cynllunio a'r sefyllfa unigryw o ran Ymyrraeth y Gweinidog ym Môn i fynd i'r afael â llywodraethu corfforaethol er mwyn adfer hyder y cyhoedd yn y broses gwneud penderfyniadau. Hefyd, cymerodd y Comisiynwyr i ystyriaeth sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru a PwC (archwilwyr allanol) y dylai'r Cyngor adolygu ei brosesau cynllunio. Derbyniwyd argymhellion y swyddog statudol i'r Comisiynwyr fel rhai derbyniol ym mhob un o'r amgylchiadau ac roedd y Comisiynwyr o'r farn eu bod yn dymuno gwneud i ffwrdd ag unrhyw ganfyddiad o fethiant o ran delio gyda gwrthdrawiad diddordeb ar lefel Cynghorwyr a Swyddogion tra'n derbyn nad yw'r canfyddiad bob amser yn adlewyrchiad o realiti.

1.3 Cyflwynwyd i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 12 Mai, yr adroddiad dyddiedig 26 Ebrill a phenderfynwyd cyfeirio'r mater hwn yn ôl i'r Comisiynwyr gydag argymhelliad y dylent ailystyried y mater gan gadw mewn cof y newidiadau sydd eisoes wedi eu gwneud i Bwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yr Awdurdod hwn.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r broses a ddilynwyd wrth i'r Comisiynwyr ystyried cais y Cyngor a dod i benderfyniad ar y mater sy'n ymwneud â Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio ("y Rheolau"), sydd i'w gweld yn rhan 4.6 y Cyfansoddiad.

1.5 Yr argymhelliad blaenorol i'r Comisiynwyr oedd iddynt argymell cymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau am gyfnod arbrofol o 12 mis, cyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn ar gyfer sylwadau ac yna ei gyflwyno i'r Gweinidog ar gyfer newid y Cyfansoddiad. Rhaid i'r Comisiynwyr felly gymryd yr holl faterion hyn i ystyriaeth a gwneud penderfyniad ar y mater.

## 2. Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol SAC / PwC 2009

2.1 Cyfyd y cynigion o amryfal argymhellion gan Archwilwyr ac yn benodol, yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ar gynllunio a gynhaliwyd gan SAC a PwC ym mis Rhagfyr 2009.

2.2 Cynhaliodd SAC a PwC yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol penodol o faterion cynllunio yn 2009 (fel rhan o'r ALIC ehangach) ac o ganlyniad i rai ymatebion i ymgynghori cyhoeddus fel rhan o'r ALIC ehangach. Yn adroddiad SAC / PwC, awgrymwyd y dylid adolygu'r Rheolau er mwyn cynorthwyo i sefydlu'n glir ac yn syml swyddogaethau aelodau a swyddogion sy'n rhan o'r broses gynllunio a'r hyn a ddisgwylir ohonynt gan gynnwys rôl aelodau'r Pwyllgor a'r cydbwysedd rhwng ei swyddogaeth fel aelod ward ac fel aelod o'r Pwyllgor.

## 3. Yr Adolygiad

3.1 Cafodd y dasg o adolygu'r rheolau ei hymgorffori yng "Nghynllun Gwella'r Broses o wneud Penderfyniadau Cynllunio 2010-11" ac ymgymerwyd â'r dasg benodol gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol sydd hefyd yn gweithredu fel Cyfreithiwr Cynllunio'r Cyngor.

3.2 Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl i'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) ym mis Tachwedd 2010. Mae canlyniad yr adolygiad o ran y newidiadau a awgrymwyd i'r Rheolau wedi ei nodi yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn. Mae yna dri newid mawr: mae dau yn ymwneud â chyfyngiadau ar aelodau'r Pwyllgor ac mae'r trydydd yn egluro'r Rheolau mewn perthynas â'r ceisiadau hynny gan aelodau a swyddogion y mae'n rhaid iddynt fynd gerbron y Pwyllgor ar gyfer penderfyniad.

## 4. Ymgynghori

4.1 Ymgynghorwyd yn sylweddol ac yn eang ar y newidiadau arfaethedig.

4.2 Pwyllgor Safonau. Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Safonau ar y newidiadau arfaethedig yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2010. Mae ymateb y Pwyllgor eisoes wedi cael cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau blaenorol.

4.3 Aelodau Etholedig. Ymgynghorwyd gyda'r holl aelodau etholedig ar y newidiadau arfaethedig a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion oedd 31 Ionawr 2011. Derbyniwyd tri o ymatebion; roedd dau yn cefnogi'r holl newidiadau a'r llall yn cefnogi dau o'r newidiadau ac yn gofyn cwestiwn am y trydydd.

4.4 Y Pwyllgor Cynllunio. Ymgynghorwyd gyda'r Pwyllgor Cynllunio ar 2 Chwefror 2011 a phenderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad ond heb fynegi barn oherwydd bod rhyddid i bob aelod ystyried y mater yn y Cyngor llawn.

4.5 Y Pwyllgor Gwaith ar y pryd. Cyflwynwyd adroddiad ar y mater i'r Pwyllgor Gwaith ar y pryd i bwrpas ymgynghori oherwydd byddai unrhyw newidiadau i'r Rheolau yn

newid i'r Cyfansoddiad. Yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar y pryd gefnogi'r tri phrif newid.

4.6 Arweinyddion Grŵp. Ymgynghorwyd gyda'r Arweinyddion Grŵp yn eu cyfarfod ar 2 Mawrth 2011.

4.7 Cyngor Llawn. Adroddwyd ar y mater i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2011. Penderfynodd y Cyngor llawn ohirio'r mater hyd nes ei gyfarfod arferol nesaf ond yn y cyfamser, gofynnwyd i'r swyddogion wneud ymholiadau ynglŷn â'r drefn mewn awdurdodau eraill yng Nghymru. Gwnaed hynny ac adroddir arno isod.

4.8 Cynghorau Eraill. Ymgynghorwyd gyda swyddogion monitro a phrif swyddogion cynllunio (neu swyddogion cyfatebol) y 21 prif Gyngor arall yng Nghymru ar y ddau newid mawr sy'n ymwneud ag aelodau'r Pwyllgor.

4.8.1 O'r ymatebion a dderbyniwyd, dim ond un prif Gyngor arall yng Nghymru (sef Sir Gâr) sy'n cyfyngu cyfranogiad yn y Pwyllgor Cynllunio i ddim ond yr aelodau hynny a fu ar yr ymweliad safle swyddogol mewn perthynas â chais. Fodd bynnag, fel y gellid disgwyl, mae'r drefn yn amrywio ledled Cymru. Mae gan rai Cynghorau Is-Bwyllgorau Ymweliadau Safle, mae gan eraill Banelau Ymweliadau Safleoedd ac mae gan rai Is-Bwyllgorau neu Banelau Ymweliadau Safleoedd a chanddynt bwerau dirprwyol i wneud penderfyniadau ar geisiadau.

4.8.2 O'r ymatebion a dderbyniwyd, dim ond Cyngor Gwynedd sydd â Rheol sy'n gwahardd aelod lleol sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio rhag pleidleisio ar gais yn ei ward.

4.9 Mae cyngor a gafwyd yn ddiweddar gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn pwysleisio pwysigrwydd rôl Cynghorydd ward yn y broses datblygu ar yr amod bod diogelwch digonol yn ei le i osgoi cyhuddiadau bod penderfyniadau wedi'u gwneud ymlaen llaw.

Bydd y newidiadau y penderfynwyd arnynt gan y Comisiynwyr ym Môn yn gwarchod hawliau aelodau lleol i siarad yn y Pwyllgor ac o'r herwydd, mae cyfranogiad Cynghorwyr yn cael ei warchod gyda diogelwch hefyd i osgoi unrhyw ganfyddiad bod penderfyniadau wedi'u gwneud ymlaen llaw.

Er bod y Comisiynwyr yn ymwybodol o'r ffaith nad oes yr un awdurdod lleol arall yng Nghymru ac eithrio Sir Gâr a Gwynedd yn ymarfer y trefniadau hyn, roedd y Comisiynwyr o'r farn, oherwydd yr amgylchiadau presennol ym Môn ac oherwydd bod system debyg yn gweithio yn Sir Gâr a Gwynedd, bod y cyngor statudol yn rhesymol o ran diogelu Cynghorwyr Môn rhag unrhyw ganfyddiad posibl o wrthdrawiad diddordeb.

## 5. Y Cynigion ynghylch Aelodau Lleol a Chymryd Rhan yn y Pwyllgor Cynllunio

5.1 Cynigir na chaiff aelodau sydd ar y Pwyllgor Cynllunio ac sy'n cynrychioli'r ward lle mae safle'r datblygiad bleidleisio na gwneud nac eilio argymhelliad ynghylch cais o'r fath (paragraff 4.6.4.3.3 y Rheolau).

5.1.1 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfyngiadau o'r fath ar yr "aelod lleol" sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor. Ar hyn o bryd, mae'r aelod lleol yn rhydd i siarad, i wneud neu i eilio argymhelliad ac i bleidleisio ar gais o'r fath. Gallai hyn arwain at y **canfyddiad cyhoeddus** (ond nid y realiti o angenrheidrwydd) bod yr aelod lleol efallai (pan fydd yn siarad, yn gwneud neu'n eilio argymhelliad ac/neu'n pleidleisio) yn gweithredu fel eiriolwr o blaid neu yn erbyn y cais oherwydd eu bod yn aelod lleol. Nid dyna fyddai'r rôl briodol i aelod o'r Pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth led-weinyddol. **Mae'r newid arfaethedig yn cael gwared ar y risg o ganfyddiad o'r fath.**

**5.1.2 Nid yw'r newid yn cael effaith ar hawl yr aelod i siarad yn y Pwyllgor yn rhinwedd ei swydd fel yr aelod lleol a gall y newid wella canfyddiad y cyhoedd o'r system gynllunio.**

5.2 Cynigir na chaiff aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ond gymryd rhan yn y drafodaeth ar geisiadau os ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol y Pwyllgor mewn perthynas â'r cais hwnnw. Mae hyn yn cynnwys bod yn bresennol mewn unrhyw ymweliad safle swyddogol (paragraffau 4.6.5.1 a 4.6.19.1.1(vi) y Rheolau). Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais neu unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais.

5.2.1 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Reolau sy'n dweud bod rhaid i aelod o'r Pwyllgor fod wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau blaenorol ar gais cyn y gallant gymryd rhan y tro nesaf y bydd y cais yn cael ei ystyried. Mae hyn yn wir yn achos ymweliadau safle swyddogol a hefyd yn gyffredinol.

**5.2.2 Mae ystyriaethau sylweddol blaenorol a'r ymweliad safle swyddogol yn arbennig yn sylfaen ar gyfer ystyriaethau ar y cais wedyn a dylai'r aelodau fod wedi cael cyfle i glywed a gweld yr holl drafodaethau ar gais cyn cymryd rhan mewn penderfynu ar y cais hwnnw. Gall y newid wella canfyddiad y cyhoedd o'r system gynllunio.**

## 6. <u>Casgliadau</u>

6.1 Cyflwynir y materion isod i'r Comisiynwyr fel rhai sy'n berthnasol wrth ystyried yr argymhellion:

6.1.1 <u>Hanes Cynllunio.</u> Cydnabyddir bod hanes cynllunio Ynys Môn yn pwyntio at yr angen i sicrhau osgoi unrhyw gyhoeddiadau o amhriodoldeb.

6.1.2 <u>Canfyddiad Cyhoeddus</u>. Bydd y Comisiynwyr eisiau ystyried amgylchiadau presennol y Cyngor a'r angen i fynd i'r afael ai'r canfyddiad gwael sydd gan y cyhoedd (nid o angenrheidrwydd y realiti) am y system gynllunio. Bydd y Comisiynwyr eisiau sicrhau bod gan y Cyngor y systemau gwarchod gorau a chadarnaf yn ei lle tra'n derbyn bod hyn er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch canfyddiad cyhoeddus ac nid y realiti. Roedd y ffaith bod y Cyngor yn ei Gyfarfod Cyffredinol Arbennig yn derbyn casgliadau'r Ombwdsmon ar gamweinyddu yn y maes cynllunio o ran camgymeriadau gan swyddogion yn gam ymlaen cadarnhaol i wella canfyddiad cyhoeddus.

6.1.3 Awdurdodau Lleol Eraill - Adroddiad SAC / PwC. Er nad yw Cynghorau eraill o bosibl yn mabwysiadu'r rheolau gweithdrefnol hyn, cafodd SAC a PwC achos penodol i gynnal adolygiad penodol o faterion cynllunio yn y Cyngor hwn fel rhan o Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 gan argymell y dylid adolygu'r Rheolau gyda'r nod o egluro swyddogaethau aelodau Pwyllgor sydd yn aelodau lleol ac yn aelodau o'r Pwyllgor.

6.1.4 Cynllun Gwella'r Gwasanaeth Cynllunio. Cafodd argymhellion SAC / PwC eu hymgorffori yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaeth Cynllunio a oedd yn gofyn am adolygiad o'r Rheolau, adolygiad nad oedd wedi ei gyfyngu i'r hyn a oedd yn cael ei weld fel arfer dda mewn Cynghorau eraill.

6.1.5 Mynd i'r afael â'r canfyddiad o wendidau. Mae'r ddau newid arfaethedig sy'n ymwneud ag aelodau'r Pwyllgor yn rhoi sylw i'r hyn a ganfyddir fel gwendid yn y modd y mae'r Pwyllgor Cynllunio yn gweithio. Y rhain yw: peidio â bod yn bresennol mewn ystyriaethau blaenorol ar gais gan gynnwys ymweliadau swyddogol a safleoedd a risg y gellir ystyried bod aelod lleol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor yn gweithredu ac yn argymell ac yn pleidleisio fel eiriolwr o blaid neu yn erbyn cais yn eu ward.

6.1.6 Rhoi hwb i hyder y cyhoedd. Nod y newidiadau yw rhoi hwb i hyder y cyhoedd ym Môn a'r cyhoedd yn gyffredinol a chyfrannu at y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran materion llywodraethu corfforaethol yn gyffredinol yn y Cyngor drwy sefydlu proses gynllunio sy'n gwarchod hawliau aelodau wardiau i gyfrannu at y ddadl heb unrhyw ganfyddiad o wrthdrawiad diddordeb.

6.1.7 Ymgynghori. Ymgynghorwyd yn eang ar y cynigion o fewn y Cyngor ers dechrau'r flwyddyn.

6.1.8 Cyfnod Prawf. Cyflwynir y newidiadau arfaethedig am gyfnod prawf o 12 mis. Rhydd hyn y cyfle i adolygu effaith y newidiadau.

6.1.10 Diogelu Aelodau. Rhydd y newidiadau hyn rywfaint o ddiogelwch i aelodau mewn perthynas â chwynion neu her ynghylch mater sy'n ymwneud â'r aelod Pwyllgor – aelod ward. Gwarchodir hawliau'r aelodau i siarad fel aelodau ward yn y Pwyllgor.

6.1.11 Mae cefnogaeth aruthrol i gael eglurhad o'r rheolau ynghylch y ceisiadau hynny gan aelodau/swyddogion sy'n cael eu cyflwyno i Bwyllgor.

6.1.12 Penderfyniad Blaenorol – Penderfynodd y Comisiynwyr gefnogi'r newidiadau yn eu cyfarfod ar 26 Ebrill.

## 7. Argymhelliad

7.1 Bod y Comisiynwyr yn ailddatgan ei benderfyniad i gefnogi cynllun prawf 12 mis ar gyfer:

7.1.1 Newidiadau i egluro'r Rheolau ynghylch ceisiadau gan aelodau / swyddogion a'u perthnasau a'u ffrindiau agos y dylid adrodd arnynt i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad,

7.1.2 Newidiadau i'r Rheolau:

7.1.2.1 Na ddylai aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio gael gwneud neu eilio argymhelliad na phleidleisio ar gais yn eu wardiau a

7.1.2.2 Na chaiff aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan ar gais yn y Pwyllgor os nad ydynt wedi bod yn bresennol pan gafodd y cais hwnnw ei ystyried yn sylweddol gan y Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymweliad safle swyddogol sydd wedi digwydd.

7.1.3 Mân newidiadau eraill i'r Rheolau fel y maent wedi'u nodi yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

7.2 Mae'r holl newidiadau i'r Rheolau i weithredu'r uchod wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i'r adroddiad hwn. Ymhellach, mae mân newidiadau wedi'u nodi yn y Rheolau a welir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

7.3 Yn unol â thelerau'r Gorchymyn Gweinidogol dyddiedig 16 Mawrth 2011, mae'r Comisiynwyr yn cymeradwyo cyflwyno'r newidiadau i'r Gweinidog gyda chais ei fod yn gwneud penderfyniad i newid y Cyfansoddiad fel sydd angen er mwyn gweithredu'r argymhellion ar gyfer cynllun prawf 12 mis.

**Richard Parry Jones**
**Prif Weithredwr**
**Pennaeth Statudol y Gwasanaethau Tâl**

**Papurau Cefndir**

Cynllun Gwella ar gyfer y Broses Gwneud Penderfyniadau Cynllunio 2010-11.

## Yr Atodlen

1. Argymhelliad 5.1.1

Newid rhan 4.6.10 y Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio I ddarllen fel a ganlyn:

"4.6.10 **CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1 Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gŵr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Rheolwr-gyfarwyddwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.

4.6.10.3 Bydd Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod. Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno ceisiadau, gymryd unrhyw ran yn y broses o wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw fod cais

o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferol ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylai Swyddogion sy'n ymwneud â'r broses rheoli datblygu paratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n dilyn mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o brosesu'r cais hwnnw.

2. Argymhelliad 5.1.2.1

Newid paragraff 4.6.4.3.3 y Rheolau i ddarllen fel a ganlyn:

"4.6.4.3.3. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond **ni** fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd sy'n cynrychioli ward gyfagos ac sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, ystyrir mai cynghorydd o'r fath fydd y cynghorydd lleol,

3. Argymhelliad 5.1.2.2

Newid paragraff 4.6.5.1 y Rheolau i ddarllen fel a ganlyn:

"4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr sydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd yn hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor - pa un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent gysylltu â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur led-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo."

Bod rheol newydd sef 4.6.19.1.1(vi) yn cael ei hychwanegu at y Rheolau i ddarllen fel a ganlyn:

"(vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â'r safle a'i weld cyn gwneud penderfyniad ar y cais, yna, dim ond yr aelodau hynny a fu ar yr ymweliad safle swyddogol fedr gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais a phleidleisio arno pan fydd y Pwyllgor yn ei ystyried ymhellach."

## APPENDIX

**4.6 Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio**

**Cynnwys**

**4.6.1 Cyflwyniad**

**4.6.2 Penderfynu ar geisiadau cynllunio**

**4.6.3 Trafodaethau rhagarweiniol (cyn gwneud penderfyniad) Swyddogion gydag Ymgeiswyr**

**4.6.4 Cynghorwyr yn lobïo ac yn cael eu lobïo**

**4.6.5 Trefniadau siarad ac eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.6 Cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud â chynigion datblygu**

**4.6.7 Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned**

**4.6.8 Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gynghorwyr**

**4.6.9 Cofrestru a datgan diddordeb**

**4.6.10 Cynghorwyr a Swyddogion yn cyflwyno cynigion datblygu**

**4.6.11 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu y cynllun datblygu**

**4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor**

**4.6.14 Ymddygiad Swyddogion**

**4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion**

**4.6.16 Ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.17 Anrhegion a lletygarwch**

**4.6.18 Hyfforddiant**

**Atodiad**

**4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd**

**4.6.20 Rôl Cadeirydd y Pwyllgor**

#### 4.6.21 Y Cyhoedd yn siarad

4.6.1 **CYFLWYNIAD**

4.6.1.1 Un o ddyletswyddau pwysig y Cyngor Sir yw penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r rheolau hyn yn pennu sut y bydd y Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, yn delio â cheisiadau cynllunio ac maent yn berthnasol i Gynghorwyr a Swyddogion gan ddibynnu ar y cyd-destun.

4.6.1.2 Swyddogion Cynllunio, yn gweithredu ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, fydd yn penderfynu ar y rhan fwyaf o'r ceisiadau a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) fydd yn penderfynu ar bob cais arall. Mae'r rheolau sy'n pennu pa un ai Swyddogion ynteu'r Pwyllgor fydd yn penderfynu ar geisiadau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn ym mharagraff .......— o'r achosion hynny lle gall y Pwyllgor wneud y penderfyniad, yr un mwyaf arwyddocaol yw lle y gall y Cynghorydd lleol (yr un sy'n cynrychioli'r ardal leol lle mae'r tir sy'n destun cais cynllunio) fynnu ar gyflwyno cais i'r Pwyllgor benderfynu arno (un a allai fel arall gael ei benderfynu gan Swyddogion). Yn yr achosion hyn, rhaid i'r cynghorydd lleol 'alw i mewn' yn ysgrifenedig gais o'r fath at a gan gyfeirio'r cais galw i mewn at y Prif Swyddog Cynllunio o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod iddo/iddi am y cais. Yn achos y ceisiadau hynny a elwir yn rhai economaidd "gyda brys" caniateir 14 diwrnod yn unig i chi i'weu trosglwyddo i'r Pwyllgor. Gall y cynghorydd lleol dynnu'n ôl eu cais i alw penderfyniad i mewn ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor drwy roi gwybod i'r swyddog achos a chadarnhau'n ysgrifenedig bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod yei bpenderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.

4.6.1.4 Un o amcanion allweddol y drefn gynllunio yw rheoli datblygiadau er lles y cyhoedd. Wrth gyflawni hyn, mae cynllunio o reidrwydd yn cael effaith ar fuddiannau tir ac eiddo, yn arbennig gwerth ariannol tiroedd ac ansawdd yr amgylcheddeu lleoliadau. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn agored pan gânt effaith ar y buddiannau hyn a bod y penderfyniadau yn ddiduedd, yn seiliedig ar farn ddoeth ac wedi eu gwneud am resymau y mae modd eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses adael dim lle i awgrymu, gydag unrhyw gyfiawnhad, bod penderfyniad yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod yn deg mewn unrhyw fodd.

4.6.2 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod raid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath

- ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol
- anwybyddu ystyriaethau amherthnasol neu rai y tu allan i'r maes cynllunio

- gweithredu'n ddiduedd, yn deg a pheidio ystyried unrhyw ystyriaethau gwleidyddol

4.6.2.2 Mae cyfraith cynllunio yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Statudol oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dangos fel arall. Mae'r pwyslais wrth benderfynu ar geisiadau ar drefn 'yn ôl cynllun'.

4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunioar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd.

4.6.2.4 Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio i ystyried sylwadau ddaw i olwg yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i ymgynghori gyda chyrff â diddordeb neu o ganlyniad i rybudd cyhoeddus neu hysbysu cymdogion. Wrth bwyso a mesur mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a pha bwysau i osod arnynt. Ni ddylai'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ ddod i gasgliad hyd oni fydd holl ffeithiau wedi'u cyflwyno yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.

4.6.2.5 Rhaid i Gynghorwyr beidio â gwneud ymrwymiad ynghylch unrhyw fater cynllunio cyn ei ystyried yn y Pwyllgor. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, y bydd ymgeiswyr, asiantau a gwrthwynebwyr o bryd i'w gilydd yn mynd i ben Cynghorwyr unigol ynghylch cynigion cynllunio. Amcan y rheolau hyn yw cynorthwyo Cynghorwyr ar sut i drin digwyddiadau o'r fath a chawsant eu llunio i sicrhau cadw cywirdeb y drefn benderfynu.

4.6.2.6 Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neu mewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.

4.6.3 **TRAFODAETHAU RHAGARWEINIOL (CYN GWNEUD PENDERFYNIAD) SWYDDOGION GYDAG YMGEISWYR**

4.6.3.1 Mewn unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio, eglurir bob amser ar y dechrau na fydd trafodaeth~~au~~ o'r fath :

- yn rhwymo'r awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad arbennig, a
- bod unrhyw sylwadau yn cael eu mynegi ar sail barn broffesiynol y Swyddogion ar y pryd ond heb ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i unrhyw benderfyniad arbennig.

4.6.3.2 Bydd unrhyw gyngor a roddir :

- yn gyson ac yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu~~cysondeb ymhob cyngor ac ar sail y Cynllun Datblygu~~ ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- ~~Ar ben hynny bydd unrhyw gyngor~~ yn ddiduedd a'r, y gorau y gall swyddog ei roddi dan yr amgylchiadau, a
- bydd yn ceisio dwyn sylw at unrhyw broblemau amlwg.

4.6.3.3 Ni chaiff~~ddylai~~ Cynghorydd gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Swyddogion gydag ymgeiswyr ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais. Pan fo hynny'n digwydd mae modd cyflwyno cwyn am y Cynghorydd i Swyddog Monitro'r Cyngor.

Formatted: Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

Formatted: Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

4.6.4 **CYNGHORWYR YN LOBÏO AC YN CAEL EU LOBÏO**

4.6.4.1 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion.~~

(i) Mae ymgeiswyr, gwrthwynebwyr ac eraill â diddordeb yng nghanlyniad ceisiadau cynllunio yn debygol o gysylltu gyda Chynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~. Oherwydd natur led-farnwrol neu reoleiddiol penderfyniadau cynllunio, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ganiatáu i neb eu lobïo - pa un ai o blaid neu yn erbyn cais. Os digwydd hynny, dylent hysbysu'r person sy'n ceisio pwyso arnynt, os bydd iddynt drafod y cais gyda'r person hwnnw~~sy'n ceisio pwyso arnynt~~, y gall~~bydd~~ hynny~~'n~~ eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad ar y cais. Yn lle hynny, dylid cynghori darpar lobïwyr i gysylltu gyda'u~~r~~ Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio.

Formatted: Underline

(ii) Ni ddylai cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ drefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig cynllunio os ydynt am gymryd rhan yn y drafodaeth~~penderfyniad~~ ar y cais yn ddiweddarach.

(iii) Wrth ystyried yr angen i wneud penderfyniadau'n ddiduedd, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ ffafrio, na rhoi'r argraff o ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grwp nac ardal, na datgan cyn y cyfarfod pa ffordd y bwriadant bleidleisio. Byddai gwneud hynny heb gael yr holl wybodaeth a sylwadau perthnasol yn annheg a niweidiol. Os bydd Cynghorydd yn teimlo y byddai'r cyhoedd yn credu iddynt ddod i farn bendant ar y mater neu gais cynllunio cyn y cyfarfod, neu fod person â diddordeb wedi pwyso arnynt, ni ddylent gymryd rhan yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y mater. Nid yw hyn yn cael effaith ar eu hawl i annerch y Pwyllgor yn ôl darpariaeth adran 5.2 y rheolau~~nodiadau~~ hyn (4.6.5.2).

Formatted: Underline

(iv) Pan fo'r Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn credu bod Cynghorydd wedi gwneud drwg i'w sefyllfa trwy fynegi barn bendant ar gais cyn i'r Pwyllgor benderfynu arno, bydd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn hysbysu'r Cynghorydd y byddai'n amhriodol iddo gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleideisio ar y cais. Gyda'r Cynghorydd, fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol - ond bydd yn wynebu sgriwtini o'r tu allan.

4.6.4.2 Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~

Ni ddylai ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~. Os oes rhywun yn cysylltu gyda'r Cynghorwyr hyn yna dylai'r Cynghorwyr roi gwybod i'r sawl sy'n lobïo y dylent un ai gysylltu gyda'u~~r~~ Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu gyda'r Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio. Os ydyw cynghorydd o'r fath yn cael ei lobïo yna ni ddylai lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ ac ni fydd â'r hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

(4.6.4.3.1i) Mae gwahaniaethaueithriadau i'r rheolau lobïo sy'n ymddangos yn 4.6.4.1 (i) a 4.6.4.2 yng nghyswllt y Cynghorydd lleol, h.y. y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward.

(4.6.4.3.2ii) Os nad yw'r Cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yna mae'n iawn i ymgeisydd, i wrthwynebydd neu unrhyw un arall â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio lobïo'r Cynghorydd lleol hwnnw. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn cael ei lobïo a chyda'r amod nad oes ganddo ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr, yna bydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a siarad yn y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni chaiff fel unigolyn lobïo, nac yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

(4.6.4.3.3.iii) Os ydyw'r cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond ni fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd sy'n cynrychioli ward gyfagos ac sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, ystyrir mai cynghorydd o'r fath fydd y cynghorydd lleolmae ganddo ddewis,

**un ai**

(1) rhoi gwybod i'r unigolyn sy'n ceisio ei lobïo y bydd fel Cynghorydd yn colli'r hawl i fod yn rhan o'r penderfyniad ar y cais os ydyw'n derbyn gwybodaeth gan y lobïwr neu'n trafod y cais gyda'r lobïwr, ond bydd yr Aelod â'r hawl i annerch y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn yr un modd â than yr amodau sy'n ymddangos yn 4.6.4.3 (ii),

**neu**

(2) gyrru'r unigolyn sy'n ceisio lobïo at Gynghorydd sy'n cynrychioli ward gyffiniol ond heb fod ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac i bwrpas y rheolau hyn ystyrir bod Cynghorydd o'r fath yn Gynghorydd lleol.

(4.6.4.3.4.iv) Ni all y Cynghorwyr lleol, y cyfeirir atynt yn y rheolau hyn, gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion na chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os oes ganddynt ddiddordeb i'w ddatgan yn unol a'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr. Bydd hyn yn berthnasol - pa un a ydynt yn aelodau ai peidioneu beidio o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion neu beidio. Os ydyw cynghorydd lleol yn cael ei hun yn y sefyllfa hon dylai yrru unrhyw lobïwr at gynghorydd sy'n cynrychioli ward gyffiniol ond heb fod ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ac i bwrpas y rheolau hyn ystyrir bod cynghorydd o'r fath yn gynghorydd lleol.

4.6.4.4 Pan fo llythyrau hysbysu cymdogion yng nghyswllt cais cynllunio yn cael eu gyrru i eiddo heb fod yn yr un ward â safle'r cais yna gall y Cynghorydd sy'n cynrychioli'r eiddo dan sylw siarad fel cynghorydd lleol yn y Pwyllgor. Dim ond yr hawl i siarad yn y Pwyllgor a roddir dan y rheol hon ac nid yw'n rhoddi unrhyw hawliau eraill i'r cynghorydd dan sylw fel cynghorydd lleol.

**Formatted:** Font: Bold

**Formatted:** Indent: Left: 0 cm, Hanging: 1.27 cm

**Formatted:** Indent: Left: 0 cm, Hanging: 1.27 cm

4.6.5 **TREFNIADAU SIARAD AC EISTEDD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION**

"4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr sydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd yn hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor - pa un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent gysylltu â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo."

~~4.6.5.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion dylai cynghorwyr sydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd yn hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor - pa un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio - ac ni ddylent gyfathrebu â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.~~

4.6.5.2 Bydd yr hawl i annerch y Pwyllgor yn berthnasol hefyd i aelodau o'r Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ (gan gynnwys yr cynghorydd lleol):

- -y pwyswyd arnynt, -neu
- all fod eisoes wedi mynegi barn bendant ar gais, neu
- sydd wedi siarad ar y cais ar lefel Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned a hefyd bydd yn berthnasol i'r cynghorydd lleol, neu'r
- cynghorydd sy'n cynrychioli'r ward gyffiniol fel y cyfeiriwyd at hynny yn 4.6.4.3(iii)(2).

Formatted: Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.71 cm + Indent at: 1.35 cm

Fodd bynnag, os caiff yr hawl hon ei hymarfer, dylai'r cynghorwyr ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ gydymffurfio â pharagraff 4.6.5.1 uchod pan fydd y mater arbennig yn cael ei ystyried. Ni allant gymryd rhan yn y penderfynu a dylent ddatgan yn y cyfarfod pam nad ydynt yn cyfranogi yn y penderfyniad.

Formatted: Indent: Left: 1.35 cm, First line: 0 cm

4.6.5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal busnes y cyfarfod yn unol â~~a~~'r Atodiad sydd ynghlwm.

4.6.6 **CYFARFODYDD CYHOEDDUS YN YMWNEUD Â CHYNIGION DATBLYGU**

4.6.6.1 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar faterion cynllunio fynychu cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â chynigion datblygu neu geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, onid yw'r cyfarfodydd hynny wedi eu trefnu gan yr Awdurdod, neu gyda'i gytundeb pendant. Gallai mynychu arwain at honiadau o ochri neu ragfarn o ran safbwynt arbennig. O'u cael yn y fath sefyllfa o fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan, neu gyda chydsyniad, yr Awdurdod, neu trwy ddamwain, yna dylai Swyddogion fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd,

yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol, yn gwrando ar sylwadau ac yn osgoi rhoi barn ar fanteision neu anfanteision y cynnig.

4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath rhaid peidio â datgan unrhyw farn ar fanteision nac ar anfanteision cynnig.

4.6.7 **CYNGHORWYR SY'N AELODAU O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION A HEFYD YN GYNGHORWYR TREF NEU GYMUNED**

Dylai'r cynghorwyr hyn benderfynu pa beth y dymunant ei wneud yng nghyswllt pob cais cynllunio all gael ei ystyried gan Gyngor Tref neu Gymuned (neu bwyllgor neu is-bwyllgor ohono).Y dewis yw:-
**un ai** :

4.6.7.1 cymryd rhan yn nhrafodaeth y Cyngor Tref neu Gymuned ac yna, os dymunant, siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ yn ôl y ddarpariaeth yn Rheol 5.4 ond i beidio a chymryd rhan fel arall yn nhrafodaethau'r Pwyllgor na phleidleisio ar y cais, neu
~~**neu**~~

4.6.7.2 peidio â chwarae rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor Tref neu Gymuned (ac, o ddewis, peidio bod yn yr ystafell pan fydd y mater yn cael ei drafod) ac yna gyfranogi'n llawn yn y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~.

4.6.7.3 **Sylwer:** Mae gan y cynghorwyr hynny sy'n gwasanaethu~~dd~~ ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ ond sydd heb fod yn aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned hawliau, fel aelodau eraill o'r cyhoedd, i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus y Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn achosion o'r fath, sylwedyddion yn unig fydd y Cynghorwyr yng nghyfarfodydd y Cynghorau Tref neu Gymuned ac ni allant chwarae rhan ynddynt.

4.6.8 **GOHEBIAETH Y MAE CYNGHORWYR YN EI DERBYN**

Os bydd cynghorwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol oddi wrth bobl â diddordeb ~~uniongyrchol~~ yng nghanlyniad cais cynllunio, bydd raid iddynt sicrhau fod copi yn cael ei anfon i'r Adain Rheoli Cynllunio. Yna bydd yr Adain yn gwneud y canlynol:

4.6.8.1 os bydd amser yn caniatáu, anfon copi at yr ymgeisydd neu ei asiant/hasiant er mwyn rhoi'r cyfle iddo/iddi ymateb;

4.6.8.2 rhoi copi o'r holl sylwadau ar y ffeil Gynllunio;ac

4.6.8.3 os bydd amser yn caniatáu, sicrhau fod yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

4.6.9 **COFRESTRU A DATGAN DIDDORDEB**

Mae'r Gyfraith a Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cynghorwyr a swyddogion ar y materion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n d-ddelio â cheisiadau cynllunio a rhaid eu dilyn bob amser.

4.6.10 **CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1 Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gwr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Rheolwr-gyfarwyddwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.
~~Ni ddylai Cynghorwyr mewn gwasanaeth sy'n paratoi cynlluniau na rhai sy'n gweithredu'n gyffredinol ar ran pobl sy'n hyrwyddo mater cynllunio fod ag unrhyw ran yn y broses benderfynu ar y cynnig hwnnw. Yn yr un modd, os byddant yn cyflwyno cynnig eu hunain, ni ddylent fod ag unrhyw ran ym mhrosesu'r cais hwnnw na cheisio dylanwadu ar y penderfyniad terfynol ar y cais.~~

4.6.10.3 Bydd ~~y~~ Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod.Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno cieisiadau, gymryd unrhyw rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglyn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 ~~Bydd y cynigion hynny yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w hystyried ac ni fyddant yn cael eu trin gan Swyddogion dan 'bwerau dirprwyol'.~~ Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor

Formatted: Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

Formatted: Indent: Left: 0.63 cm, First line: 0 cm

hwnnw fod y cais o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferolfel arfer ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylaiRhaid i SwyddogionSwyddogion sy'n ymwneud mewn unrhyw fodd â'r broses rheoli datblygugynllunio beidio â phbaratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys Aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n dilyn mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o bgymryd unrhyw ran ym mhrosesu'r cais hwnnw. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w hystyried ac ni fyddant yn cael eu trin gan Swyddogion dan "bwerau dirprwyol".

Formatted: Indent: Left: 0 cm, Hanging: 1.87 cm, Tab stops: 1.27 cm, Left + 1.83 cm, Left

4.6.10.6 Ni chaiff Swyddogion sydd ddim yn ymwneud â'r broses gynllunio baratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson neu gorff heblaw nhw eu hunain neu Aelodau agos o'u teuluoedd (h.y. priod, rhieni, teidiau a neiniau, plant, brodyr neu chwiorydd) ac, ymhob un o'r achosion hyn, rhaid iddynt hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio o'u cyfranogiad fel bod modd trosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a pheidio â chaniatáu i Swyddogion ei drin dan "bwerau dirprwyol".

## 4.6.11 ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

4.6.11.1 Bydd adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys asesiad rhesymedig o'r cynnig ac argymhelliad gyda chyfiawnhad, ynghlwm wrth bob cais cynllunio sy'n mynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

4.6.11.2 Bydd unrhyw faterion newydd sydd wedi codi rhwng adeg paratoi'r adroddiad a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno ar lafar a bydd cyfeiriadau at hynny yn y cofnodion.

4.6.11.3 Bydd ffeil pob cais cynllunio yn cynnwys adroddiad manwl ar ddigwyddiadau drwy gydol oes y cais; yn arbennig bydd yn cynnwys canlyniad cyfarfodydd neu sgyrsiau arwyddocaol ar y ffôn.

4.6.11.4 Bydd yr egwyddor o gadw cofnodion da hefyd yn cael ei dilyn gyda materion gorfodi. Bydd rheolwyr yn yr Adain Rheoli DatblyguCynllunio yn goruchwylio'r broses o gadw cofnodiadau yn barhaus.

## 4.6.12 PENDERFYNU YN GROES I ARGYMHELLION SWYDDOGION

4.6.12.1 Pan fo'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad Swyddog bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r Swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y Swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau

cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o reswm(rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad .

4.6.12.2 Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd. ~~Manylir yn adroddiad y Swyddog ar resymau'r Aelodau a nodir y materion cynllunio defnydd tir a godwyd.~~

4.6.12.3 Pan fo Cynghorwyr eisiau ychwanegu neu newid amodau a argymhellwyd gan Swyddogion, dylid gwahodd y Swyddogion i lunio amodau a'u cyflwyno, i'w cymeradwyo, yn y cyfarfod dilynol oni bai fod y llunio yn rhwydd a bod modd cytuno arno yn y cyfarfod gwreiddiol.

4.6.12.4 Pan fo swyddogion cynllunio yn methu ag amddiffyn penderfyniadau o'r fath ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) byddant yn egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor cyn cymryd pleidlais derfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau o aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i fynychu unrhyw apêl ac egluro yn yr apêl benderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Y ddau hyn fel arfer fydd cynigydd ac eilydd y cynnig sy'n groes i argymhelliad y swyddog.

4.6.13 **APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR**

4.6.13.1 Bydd y swyddogion yn trefnu ac yn gyffredinol yn ymddangos fel tystion mewn apeliadau cynllunio ac mewn cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd raid penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

4.6.13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor ond ar yr un pryd, bydd yn cydymffurfio gyda chôd ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi.

4.6.13.3 Pan fo'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion a'r swyddogion eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor na fedrant amddiffyn penderfyniad o'r fath, bydd y swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar yr apêl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Y Cynghorwyr fydd yn gyfrifol wedyn am gyflwyno achos y Cyngor yn yr apêl.

4.6.14 **YMDDYGIAD SWYDDOGION**

4.6.14.1 Mae Côd Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) yn ganllaw i Swyddogion sy'n Gynllunwyr Trefol Siartredig. Bydd raid i'r holl Swyddogion, pa un a ydynt yn Aelodau o'r Sefydliad ai peidio, gadw at yr un egwyddorion sef –

(4.6.14.1.1~~i~~) Gweithredu yn fedrus, yn ddidwyll ac yn gywir;

(4.6.14.1.2~~ii~~) Ymarfer eu barn broffesiynol annibynnol yn eofn ac yn ddiduedd hyd eithaf eu gallu a'u dealltwriaeth;

(4.6.12.1.3~~iii~~) Cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwyr, cleientiaid, cydweithwyr ac eraill gyda dyledus ofal ac ymroddiad yn unol â darpariaethau'r Côd uchod;

(4.6.12.1.4~~iv~~) Peidio â dwyn anfri ar y proffesiwn nac ar y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol;

(4.6.12.1.5~~v~~) Peidio â datgelu na defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol yn ystod eu gwaith i'w mantais eu hunain na'r Awdurdod;

(4.6.14.1.6~~vi~~) Gwrthod pob disgownt, anrheg neu gomisiwn sy'n cael ei gynnig gan unrhyw drydydd person mewn perthynas â'u gwaith fel cynllunwyr proffesiynol.

## 4.6.15 Y BERTHYNAS RHWNG CYNGHORWYR A SWYDDOGION

4.6.15.1 Er mwyn creu perthynas broffesiynol gadarn rhwng Swyddogion a chynghorwyr bydd raid i'r naill barchu a deall swyddogaethau'r llall yn y broses benderfynu.

4.6.15.2 Rhaid i gynghorwyr barchu cyngor swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor neu pan fônt yn delio gyda cheisiadau dirprwyol ac ni chânt bwyso ar swyddogion am argymhelliad neu benderfyniad arbennig. Dylai unrhyw swyddog sy'n ystyried bod hyn wedi digwydd ddelio gyda'r mater yn unol ag adran 5.3.4 y Cyfansoddiad hwn (Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol).

## 4.6.16 YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD

4.6.16.1 Mae protocol ar ymweliadau safle yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth y rheolau hyn.

## 4.6.17 ANRHEGION A LLETYGARWCH

4.6.17.1 Mae cyngor i gynghorwyr ar gofrestru anrhegion a lletygarwch yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a bydd raid glynu wrth y Côd.

4.6.17.2 Yn ystod gwneud eu gwaith, mae'n bosib y cynigir i Swyddogion letygarwch gan bobl â diddordeb mewn cynigion cynllunio. Rhaid i Swyddogion wrthod pob cynnig o'r fath. Onid oes modd osgoi derbyn lletygarwch, rhaid i Swyddogion

sicrhau nag fyddant yn derbyn mwy na sydd raid a datgan ei dderbyn i'r Swyddog Monitro mor fuan ag y bo modd.

4.6.18 **HYFFORDDIANT**

4.6.18.1 Ni all yr un aelod ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion hyd oni fydd wedi mynychu hyfforddiant cyflwyniadol. Y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fydd o bryd i'w gilydd yn penderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant cyflwyniadol. Wedyn cyflwynir hyfforddiant diweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau – bydd hynny'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi sylw i newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i'r weithdrefn.

4.6.18.2 Sicrha Cynghorwyr eu bod yn mynychu o leiaf 3 achlysur hyfforddi dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cadw ar y blaen i'r materion cynllunio ac yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol yn y broses benderfynu. Bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu monitro a'u cyflwyno i'r Cyngor. Bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion sy'n methu â mynychu nifer benodol a sylfaenol o sesiynau hyfforddi yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor neu'n cael ei atal rhag bod arno am gyfnod trwy bleidlais yn y Cyngor llawn pan gyflwynir i'r Cyngor adroddiad ar y cofnod mynychu.

**ATODIAD -**

4.6.19 **PROTOCOL AR GYFER YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.19.1 **MEINI PRAWF AR GYFER YMWELIADAU SAFLE**

(i) Mae'n bwysig bod meini prawf yn cael eu sefydlu ar gyfer penderfynu pryd mae modd cyfiawnhau ymweliad â safle ac ystyried dull gweithredu ymweliadau o'r fath. Yn hyn o beth dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

Gall ymweliadau safle :

- oedi'r broses benderfynu, ac
- efallai arwain at apêl i'r 'Arolygiaeth Gynllunio' ar sail 'methu â phenderfynu'; ~~hefyd~~
- gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran ei darged 8 wythnos a pheri costau ychwanegol i'r G~~g~~wasanaeth ac efallai i'r ymgeis(-ydd/-wyr) fel ei gilydd.

(ii) Mae angen cysondeb wrth benderfynu ar ymweld â safle a sut i gynnal ymweliad o'r fath. Fel arall gall adael yr Awdurdod yn agored i'r cyhuddiad fod ymweliadau safle yn fympwyol neu efallai yn ddyfais lobïo.

(iii) Rhaid trefnu ymweliadau â safleoedd yn ofalus a'u mynychu yn dda a sefydlu'n glir ar y cychwyn cyntaf beth yw eu diben, eu ffurf a'u trefniadau a chadw at hynny wedyn.

Formatted: Indent: Left: 3.17 cm, No bullets or numbering

Formatted: Numbered + Level: 1 + Numbering Style: i, ii, iii, … + Start at: 2 + Alignment: Left + Aligned at: 3.81 cm + Indent at: 5.08 cm

- (iv) Rhaid osgoi ymweliadau â safleoedd onid yw'r manteision yn sylweddol. Dylai'r prawf 'mantais sylweddol' fod yn berthnasol ym mhob achos. Ni ddylai ymweliadau â safleoedd fod yn angenrheidiol onid yw'n anodd gweld a dirnad beth fydd effaith y datblygiad arfaethedig h.y. pan fo aneglurder y cais yn gwneud asesiad gweledol yn angenrheidiol.

- (v) Gall ymweliadau â safleoedd fod yn briodol i ystyried ceisiadau mawr, mwy cymhleth.

- (vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â safle cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y cais, yna dim ond yr aelodau hynny a aeth ar yr ymweliad swyddogol â'r safle fedr gymryd rhan a phleidleisio ar y cais pan fydd yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor.

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering, Tab stops: Not at 1.9 cm

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering, Tab stops: Not at 1.9 cm

Formatted: List Paragraph, No bullets or numbering, Tab stops: Not at 1.9 cm

Formatted: Indent: Left: 3.17 cm, No bullets or numbering

Bydd cyfeiriad at argymhelliad swyddog i ymweld â safle yn ymddangos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.6.19.1.2(ii) Ni ddylidfydd angen ymweld â safle yn yr achosion canlynol:

- (i) I ystyried anghydfod ynghylch ffiniau neu rhwng cymdogion yn unig
- (ii) I ystyried gwrthwynebiadau ar sail cystadleuaeth.
- (iii) I ystyried gwrthwynebiadau a godwyd ar sail gostwng gwerth eiddo.
- (iv) I ystyried unrhyw faterion eraill sydd heb fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
- (v) Pan fo'r cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn y 12 mis cynt, onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

4.6.19.2 **CEISIADAU AM YMWELIADAU Â SAFLEOEDD**

I bwrpas sefydlu trefn strwythuredig i'r ymweliadau a safleoedd bydd raid glynu wrth y drefn ganlynol:-

4.6.19.2.1(i) Rhaid cyflwyno pob cais am ymweliad â safle yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Rheoli Datblygu / Rheolwr Rheoli Cynllunio erbyn 1.00pm ar y diwrnod gwaith olaf cyn Cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i unrhyw gais llafar ddaw cyn cyfarfod y Pwyllgor gael ei ddilyn gyda chais ysgrifenedig cyn i Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddechrau. Bydd y rheswm dros gynnal yr 'ymweliad safle' yn cael ei ddatgan yn eglur a'i gyflwyno felly i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

(ii) Os bydd cais yn cael ei wneud am 'ymweliad safle' yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, unwaith eto bydd y rhesymau dros gynnal yr ymweliad yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

4.6.19.3 **DULLIAU GWEITHREDU YN YSTOD YR YMWELIAD Â'R SAFLE**

4.6.19.3.1~~(i)~~ Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr ymweliad â'r safle ond ni fydd yn cael bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad i gyflwyno unrhyw achos.

4.6.19.3.2~~(ii)~~ Prif ddiben yr ymweliad â'r safle fydd i'r Swyddogion Cynllunio egluro'r materion cynllunio sy'n berthynol i'r achos ac i'r cynghorwyr weld y safle.

4.6.19.3.3~~(iii~~) Ni fydd unrhyw drafodaeth yn ystod yr ymweliad â'r safle o ran rhinweddau'r cais. Rhaid peidio â defnyddio'r ymweliad â'r safle fel fforwm i drafodaethau.

4.6.19.3.4~~(iv)~~ Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fydd yn cynnal ac yn arwain yr ymweliad â'r safle. Os bydd naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol, bydd yr Aelodau yn cytuno ar Gadeirydd dros dro.

4.6.19.3.5~~(v)~~ Bydd y Cadeirydd yn agor y Cyfarfod yn ffurfiol a nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.6.19.3.6~~(vi)~~ Gofynnir i'r swyddog cynllunio amlinellu'r cynnig a'r prif faterion.

4.6.19.3.7~~(vii)~~ Bydd y cynghorwyr yn edrych ar y safle, ar yr adeiladau perthnasol a'r cyffiniau yn ôl yr angen.

4.6.19.3.8~~(viii)~~ Bydd y cynghorwyr yn cael cyfle i godi cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar ffeithiau gyda'r swyddog cynllunio a/neu cynghorydd(-wyr) lleol.

4.6.19.3.9~~(ix)~~ Bydd cynghorydd Lleol y Ward y mae'r cais ynddi (os yn bresennol) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

4.6.19.3.10~~(x)~~ Cedwir nodiadau o'r cyfarfod ar y safle a chânt eu cofnodi felly yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pan fydd y cais yn cael ei drafod.

4.6.19.4 **ADOLYGU PENDERFYNIADAU'N RHEOLAIDD**

(i) Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio '*Building Quality*' yn argymell bod cynghorwyr yn ymweld â sampl o hawliau cynllunio sydd wedi eu gweithredu i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a, thrwy hynny, atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.
(ii) Dylid cynnal yr adolygiad yn flynyddol. Dylai gynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o gategorïau o ddatblygiad gan gynnwys ceisiadau y penderfynodd Swyddogion arnynt trwy bwerau dirprwyol.

4.6.20 **SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y PWYLLGOR A CHYNNAL BUSNES Y PWYLLGOR**

4.6.20.1 **Ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd**

4.6.20.1 (i) Bydd y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor ~~Cynllunio a Gorchmynion~~ yn ethol Cadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Yr un pryd bydd y cynghorwyr yn ethol Is-Gadeirydd am yr un cyfnod neu hyd oni fydd y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn ymddiswyddo.

(ii) Pan fo'r Cadeirydd yn absennol am y cyfan o gyfarfod y Pwyllgor neu am ran ohono yna bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y Gadair. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd bydd y Pwyllgor yn dewis un o'u ~~hi~~ aelodau sy'n bresennol i fod yn Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu am ran ohono hyd oni fydd y Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd) yn dychwelyd.

4.6.20.2 **Cyfrifoldeb y Cadeirydd**

Y rhain fydd cyfrifoldebau'r Cadeirydd :

4.6.20.2.1~~(i)~~ llywyddu yn y cyfarfodydd fel bod modd gwneud gwaith y Pwyllgor yn effeithiol gan roddi sylw priodol i hawliau'r Cynghorwyr, y swyddogion ac i fudd y gymuned yn gyffredinol.

4.6.20.2.2~~(ii)~~ sicrhau bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn briodol fel Fforwm i drafod materion cynllunio a gorchmynion statudol yn unig.

4.6.20.2.3~~(iii)~~ sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

4.6.20.2.4 cefnogi'r swyddogion cynllunio a chynrychiolydd y Swyddog Monitro i atgoffa'r aelodau ynglyn â'u dyletswydd i lynu wrth drafodaethau cynllunio gwirioneddol ac o bwys yn ystod y broses o wneud penderfyniad.

4.6.20.3 **Swyddogaeth Swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor**

4.6.20.3.1~~(i)~~ Bydd y swyddogion yn rhoddi cyngor proffesiynol i'r Cadeirydd fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn y swydd.

4.6.20.3.2~~(ii)~~ Bydd y swyddogion yn darparu cyngor fel a ganlyn :

(i~~1~~) yn y cyfarfodydd rhagarweiniol cyn y Pwyllgor er mwyn briffio'r Cadeirydd yn llawn ar faterion a allai godi yn y cyfarfodydd;

(ii~~2~~) mewn unrhyw gyfarfodydd ar ôl y Pwyllgor (os oes gofyn).

(iii~~3~~) yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo cwestiynau'n cael eu gofyn i'r Cadeirydd i bwrpas ymateb.

(iv4) mewn unrhyw gyfarfod a elwir gan swyddogion i drafod materion sy'n berthnasol i bynciau 'cynllunio' neu i bynciau 'gorchmynion'.

4.6.20.4 **Cynnal Cyfarfodydd o'r Pwyllgor**

(4.6.20.4.1i) Bydd pob eitem sydd ar y rhaglen i bwrpas trafodaeth neu wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan y Cadeirydd.

(4.6.20.4.2ii) Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cyflwyno'r eitem bydd yn sicrhau cyfle i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem. Lle mae'r drefn siarad cyhoeddus yn berthnasol i gais penodol, bydd hyn yn digwydd cyn i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem.

(4.6.20.4.3iii) Yn gyntaf bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorydd lleol siarad yn dilyn adroddiad y swyddog. Ond gan ddibynnu ar a ydyw'r cynghorydd lleol yn dymuno siarad o blaid yr eitem neu yn ei herbyn a chan ddibynnu ar a ydyw ar y Pwyllgor ai peidio.

(4.6.20.4.4iv) Wedyn bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr ymuno yn y drafodaeth yn y drefn honno sy'n cynrychioli dymuniad y cynghorwyr yn ôl dehongliad y Cadeirydd.

(4.6.20.4.5v) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor a chyda darpariaethau perthnasol y Rheolau Gweithdrefn hyn.

(4.6.20.4.6vi) Bydd pob cynghorydd sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Ni fydd cynghorwyr yn cael gwneud areithiau a bydd raid iddynt annerch y Pwyllgor ar faterion 'cynllunio' (h.y. ystyriaethau cynllunio perthnasol) a 'gorchmynion' yn unig. Gall y Cadeirydd dorri ar draws Cynghorydd sy'n gwneud datganiadau ailadroddus neu rai amherthnasol.

(4.6.20.4.7vii)Pan fo raid i swyddog ymateb i sylwadau neu i gwestiwn gan gynghorydd yna bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddog yn cael cyfle i wneud hynny.

(4.6.20.4.8viii)Os ydyw'r Cadeirydd yn dymuno siarad fel cynghorydd lleol ar eitem benodol yna bydd darpariaethau'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ef fel Cadeirydd union fel yr ymwnânt â'r holl gynghorwyr eraill.

(4.6.20.4.9ix)

(i1)Ar ddiwedd y drafodaeth bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor bleidleisio ar y mater dan drafodaeth. Onid yw'r cynghorwyr yn anghytuno gydag argymhelliad y swyddog byddant yn pleidleisio trwy godi dwylo.

(ii2) Pan fo gwelliant yn cael ei gynnig a'i eilio yng nghyswllt argymhelliad swyddog yna bydd raid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf.

(4.6.20.4.10x) Bydd raid i'r holl gynghorwyr a'r holl swyddogion barchu swyddogaeth y Cadeirydd. Bydd arweiniad y Cadeirydd ar yr holl faterion trefn yn y Pwyllgor yn derfynol ac ni fydd modd trafod ei benderfyniad. Bydd y Cadeirydd, bob amser, yn sicrhau y bydd pob cynghorydd (gan gynnwys ef ei hun) a phob swyddog yn parchu'r protocol ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a sicrhau hefyd bod y cyngor a roddo'r swyddogion yn y Pwyllgor yn cael ei barchu.

**4.6.21 Y Cyhoedd yn Siarad**

Hawl i Siarad

4.6.21.1 Rhaid i'r cais cynllunio fod ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Os bydd y cais yn cael ei ohirio, ni fydd hawl i'r cyhoedd siarad os bydd cyfle wedi ei roi yn barod mewn Pwyllgor blaenorol lle cafodd y cais ei ystyried yn llawn.

4.6.21.2 Fe all y ddau ymgeisydd (neu eu hasiantiaid), a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiantiaid), siarad a does yna ddim meini prawf i'w bodloni ac eithrio cydymffurfio gyda gweithdrefn y Cyngor.

4.6.21.3 Fel arfer dim ond un person sy'n cael siarad o blaid ac un person yn erbyn cais. Mewn achosion eithriadol efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn defnyddio ei ddisgresiwn i adael un siaradwr arall i'r ddwy 'ochr'. Fel arfer ni fydd yn gwneud hyn ond pan fydd ceisiadau mawr lle mae yna wahaniaeth barn o fewn un 'ochr' (e.e. dau yn siarad yn erbyn cais am siop fawr lle mae un yn cynrychioli barn y gwerthwyr a'r llall yn cynrychioli barn rhai sy'n byw gerllaw). Mewn achosion o'r fath bydd yr 'ochr' arall yn cael caniatâd i ddau siaradwr neu ddwywaith yr amser arferol os ydynt eisiau defnyddio'r amser hwnnw.

4.6.21.4 Rhaid i unrhyw un sydd eisiau siarad roi'r hawl i'r Cyngor gyflwyno'i enw a'i rif cyswllt i bobl eraill (o'r un farn) sydd eisiau siarad fel y gallant gytuno pwy sy'n mynd i siarad a pha bethau sydd angen eu dweud ac ati. Os na fyddant yn cytuno, y person cyntaf ofynnodd i'r Cyngor am gael siarad fydd yn cael ei ddewis fel arfer.

4.6.21.5 Rhaid cyflwyno cais am y cyfle i siarad i'r Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gynllunio cyn yr amser cau sy'n cael ei nodi yn y llythyr o rybudd sy'n cael ei anfon at ymgeiswyr a phobl sy'n byw yn ymyl safle'r cais.

Faint o amser i Siarad

4.6.21.6 Bydd y siaradwr yn cael siarad am hyd at 3 munud gerbron y Pwyllgor.

Lluniau ac ati

4.6.21.7 Does dim hawl i'r siaradwr rannu na dangos papurau yn y Pwyllgor. Rhaid i bob dim ar bapur fod wedi'i gyflwyno i'r Cyngor yn ystod y cyfnod statudol o roddi cyhoeddusrwydd i'r cais a byddant yn cael eu crynhoi yn adroddiad y Swyddog.

Y Drefn

4.6.21.8 Mae'r drefn lle mae aelodau'r cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor yn cael ei ddisgrifio yn y dogfennau priodol.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnod o Benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| **1. GWNAED GAN** | Arweinydd y Cyngor |
| **2. Y PENDERFYNIAD** | Yn unol a'r Cyfarwyddyd gan y Gweinidog dyddiedig 24 Medi 2012 yn dychwelyd pwerau i'r Pwyllgor Gwaith, yr wyf trwy hyn yn penodi'r Cynghorydd Lewis Davies i gynyrchioli'r Cyngor yng nghyfarfod blynyddol Cwmni Cynnal ac 'rwyf hefyd yn penodi yr aelodau isod i wasanaethu fel Cyfarwyddwyr ar Bwyllgor Rheoli Cwmni Cynnal:-<br><br>1. Cynghorydd G O Parry, MBE<br>2. Cynghorydd E G Davies |
| **3. GWNAED AR** | 1 Hydref, 2012 |
| **4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD** | I bwrpas dilyniant. |
| **5. DATGANIAD O DDIDDORDEB** | Dim |
| **6. CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI OI?** | Dim yn berthnasol. |
| **7. YMGYNGHORI, OS O GWBL** | Prif Weithredwr, Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro. |
| **8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?** | Ydyw |
| **DYDDIAD CYHOEDDI:** | 4 Hydref, 2012 |
| **DYDDIAD GWEITHREDU:** | 12 Hydref, 2012 |

PEN JG/SAC

This page is intentionally left blank